



ADRODDIAD BLYNYDDOL A  
CHYFRIFON YR ASIANTAETH  
SAFONAU BWYD YNG  
NGHYMRU 2017/18



# **Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru**

## **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017/18**

(Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018)



© Hawlfraint y Goron 2018

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3) neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Bwyd, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk).

Mewn manau lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd gofyn i chi geisio caniatâd y rheiny sy'n dal yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael drwy [www.gov.uk/government/publications](http://www.gov.uk/government/publications)

Dylech anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom mewn e-bost at [financial.accounting@foodstandards.gsi.gov.uk](mailto:financial.accounting@foodstandards.gsi.gov.uk).

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibr wedi'i ailgylchu.

Wedi'i argraffu yn y Deyrnas Unedig gan APS.

# CONTENTS

---

## ADRODDIAD PERFFORMIAD

Trosolwg ar y perfformiad .....	3
Rhagair y Cadeirydd .....	3
Datganiad y Prif Weithredwr .....	5
Gweithgareddau a pherfformiad 2017/18 .....	7
Y prif risgiau ac elfennau ansicr .....	43
<b>Dadansoddi'r perfformiad</b> .....	46
Camau gorfodi ffurfiol (Cymru, Lloegr) .....	46
Erlyniadau .....	47
Cwynion gan gynnwys y rheiny a wnaed i'r Ombwdsmon .....	47
Adroddiadau cynaliadwyedd .....	48

### Saesneg yn unig o hyn ymlaen

## ACCOUNTABILITY

Directors' report .....	51
Details of Board Members and Directors .....	52
Management commentary .....	55
Statement of Accounting Officer's responsibilities .....	59
FSA Governance Statement 2017/18 .....	60
Remuneration report .....	70
Staff Report .....	75
Parliamentary Accountability Disclosures .....	83
Summary of Resource and Capital Outturn .....	83
The Certificate and Report of the Comptroller and Auditor General to The National Assembly for Wales .....	85

## ACCOUNTS

Financial Statements .....	89
Statement of Comprehensive Net Expenditure .....	89
Statement of Financial Position .....	90
Statement of Cash Flows .....	91
Statement of Changes in Taxpayer' Equity .....	92
Notes to the Departmental Resource Accounts .....	93
Accounts Direction .....	103



# TROSOLWG AR Y PERFFORMIAD

## RHAGAIR Y CADEIRYDD



**Nid yw agenda foderneiddio'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) erioed wedi bod yn bwysicach. Mewn byd lle ceir newidiadau technolegol, cydgyfnerthu dramatig a bygythiadau a chyfleoedd newydd, rydym ni'n benderfynol o sicrhau bod bwyd yn ddiogel a'i fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.**

Bydd y Deyrnas Unedig (DU) yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) ymhen llai na blwyddyn, felly mae'r ASB yn gwneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau bod system reoleiddio fodern a chadarn ar waith. Bydd hynny'n hanfodol i sicrhau bod defnyddwyr yn parhau i fod â llawer o hyder yn y system diogelwch bwyd. Bydd yn hanfodol i sicrhau bod modd i fusnesau barhau i weithredu yn ôl yr arfer.

Hyd yn oed yn wyneb y pwysau ychwanegol hwn, mae hefyd angen i ni gyflawni ein gwaith o ddydd i ddydd yn eithriadol o dda. Mae'r ASB wedi gwneud cynnydd da o ran y tair blaenoriaeth hyn.

Pan fyddwn ni'n ymadael â'r UE fis Mawrth nesaf, rydym yn sicr mai ein rôl ni fydd parhau i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau ehangach defnyddwyr o ran bwyd. Mae mwy na 90 y cant o gyfraith bwyd y DU yn dod o'r UE, ac mae ein system bresennol yn ddibynnol iawn ar sefydliadau a phenderfyniadau'r UE. Bydd yn hollbwysig bod trefn reoleiddio gyfatebol ar waith o'r diwrnod cyntaf, trefn sy'n gadarn ac yn effeithiol ac sy'n cael ei harwain gan reoleiddiwr effeithiol. Bydd angen trefn o'r fath arnom i sicrhau bod bwyd yn parhau i fod yn ddiogel er budd ein defnyddwyr a'n diwydiant, ac i sicrhau bod gan ddefnyddwyr yn y DU a thramor hyder yn ein systemau diogelwch bwyd. Fis Medi diwethaf, cytunodd fy Mwrdd ar yr egwyddorion a ddylai fod yn sail i'r drefn reoleiddio effeithiol hon yn ein tyb ni. Rydym yn credu y bydd cael trefn sydd mor unedig â phosibl ledled y DU o fudd i ddefnyddwyr ac i fusnesau. I gynnal hyder y cyhoedd mewn bwyd, rydym yn dal i ymrwymo i weithredu mewn modd sy'n rhoi iechyd y cyhoedd yn gyntaf, yn seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth, ac yn agored a thryloyw. O'r diwrnod cyntaf, bydd angen trefn hollol gymwys arnom i ymateb i ddigwyddiadau bwyd ac i roi sicrwydd i wledydd sy'n mewnfario bwyd o'r DU bod ein trefn reoleiddio'n parhau i fod ymhlith y mwyaf cadarn yn y byd. Byddwn yn parhau i brofi ac i herio'r cynigion ar gyfer cynllun a gweithrediad y drefn arfaethedig ar sail y meini prawf hyn.

Ddwy flynedd yn ôl, lanswyd rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol i newid yn sylfaenol y ffordd y mae busnesau bwyd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cael eu rheoleiddio. Ar ôl ymgymryd â gwaith polisi agored ac ymgynghori'n helaeth, rydym wedi cychwyn rhoi'r dull newydd o weithredu ar waith. Bydd ein dull newydd o weithredu'n sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael mwy o wybodaeth am y busnesau bwyd yn eu hardal. Bydd yn rhoi trosolwg unedig i'r ASB, yn rhinwedd ei rôl fel Awdurdod Cymwys Canolog, ar berfformiad busnesau bwyd ac awdurdodau lleol ar draws y tair gwlad. Rydym hefyd am sianeli'r data y mae llawer o fusnesau bwyd yn eu cynhyrchu drwy gynlluniau sicrwydd ac achredu annibynnol i'r awdurdodau lleol i sicrhau bod modd i'w swyddogion wneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch natur, amllder a dwyster y rheolaethau swyddogol ar gyfer y busnesau hynny. Po fwyaf tryloyw y mae'r wybodaeth am berfformiad busnesau, a pho fwyaf o wybodaeth y mae'r diwydiant bwyd yn ei rhannu â ni, po orau y gallwn ni ddiogelu'r cyhoedd a magu eu hyder mewn bwyd. Rwy'n croesawu ymrwymiad rhai busnesau i ddarparu eu data i'r ASB. Mae hefyd yn galonogol bod rhai busnesau cig blaenllaw wedi croesawu'r cyfle i fod yn dryloyw yn sgil digwyddiadau diweddar uchel eu proffil yn y diwydiant cig.

Rydym yn benderfynol o fynd i'r afael â throseddau bwyd ac mae'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd wedi cael cryn lwyddiant eleni, yn enwedig o ran lleihau nifer y marwolaethau yn sgil cymryd y cyffwr DNP yr honnir ei fod yn llosgi braster. Fodd bynnag, mae'r Uned wedi bod yn gweithredu heb bwerau ymchwilio ac mae hyn wedi cyfyngu ar gwmpas ac effaith ei gwaith. Rwy'n falch iawn ein bod wedi llwyddo i sicrhau cefnogaeth ar draws y llywodraeth i ehangu'r Uned er mwyn iddi gael y pwerau ymchwilio hyn. Y cam olaf fydd sicrhau cyllid gan y Trysorlys i wireddu'r nod hwn a photensial yr Uned.

Un o lwyddiannau mawr y blynyddoedd diwethaf yw ein gwaith i fynd i'r afael â *Campylobacter*. Bu i ni ofyn i'r Athro Syr Charles Godfrey, Cyfarwyddwr Ysgol Oxford Martin, gomisiynu ailddatganiad o'r dystiolaeth sy'n sail i'n dealltwriaeth o *Campylobacter*, a bydd Matthew Goddard, Athro Poblogaeth a Bioleg Esblygol ym Mhrifysgol Lincoln, yn cyflawni'r gwaith. Nod ailddatganiadau yw crynhoi'r sylfaen dystiolaeth wyddonol mewn ffordd sydd o gymorth i lunwyr polisïau. Rydym yn disgwyl iddo gael ei gyhoeddi'n ddiweddarach eleni. Byddwn yn ei ddefnyddio i benderfynu ar unrhyw fesurau eraill sydd eu hangen i ddeall risgiau *Campylobacter* mewn bwyd, ac i fynd i'r afael â nhw, a bydd yn helpu i greu cyd-destun ar gyfer y ffordd yr ydym yn mynd i'r afael â bygythiadau eraill i iechyd y cyhoedd. Ymwrthedd gwrthficrobaidd yw un o'r rhain, ac mae'n fygythiad mawr byd-eang i iechyd y cyhoedd a'r economi. Rydym yn gweithio ar draws y llywodraeth i helpu i leihau lefelau'r ymwrthedd gwrthficrobaidd ac yn benodol i bennu'n llwyr y cysylltiad rhyngddo a bwyd.

Mae dadansoddwyr cyhoeddus a labordai'n chwarae rôl allweddol o ran diogelu iechyd y cyhoedd, gan sicrhau bod yr arbenigedd gwyddonol gorau ar gael ar draws llywodraeth leol a llywodraeth ganolog. Maent yn bwysig o ran ein gweithgarwch cadw gwyliadwriaeth ac o ran ymateb i ddigwyddiadau. Rydym yn pryderu am lefelau presennol y ddarpariaeth a'r tueddiadau. Felly, rydym yn bwriadu cynnal adolygiad trylwyr o'r capasiti a'r gallu sydd eu hangen i ategu'r drefn diogelwch a safonau bwyd, a byddwn yn defnyddio canlyniadau'r adolygiad i ddiogelu capasiti gwasanaeth y dadansoddwyr cyhoeddus a'r labordai ar gyfer y dyfodol.

Ymhlith uchafbwyntiau eraill y flwyddyn roedd lansiad y cynllun Calorie Wise yng Ngogledd Iwerddon lle caiff gwybodaeth am egni ei harddangos yn wirfoddol ar fwydlenni. Fel rhan o'n rhaglen Eating Well Choosing Better, rydym yn annog ac yn cynorthwyo arlwywyr, gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr bwyd i leihau swm y siwgr a'r calorïau mewn cynhyrchion bwyd drwy newid eu ryseitiau, lleihau dognau a darparu mwy o gynhyrchion iachach. Yng Nghymru, mae'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn dal i fynd o nerth i nerth. Ers iddi fod yn ofynnol yn 2016 i fusnesau tecawê gyhoeddi datganiad dwyieithog ar ddeunyddiau cyhoeddusurwydd penodol i gyfeirio defnyddwyr at wybodaeth am sgoriau hylendid bwyd, mae safonau wedi codi, gyda 65% o fusnesau bwyd Cymru'n cael y sgôr uchaf o 5 sy'n gyfystyr â 'da iawn' erbyn hyn.

Yn ôl yr arfer, mae aelodaeth y Bwrdd wedi newid rywfaint eleni. Bu i Ram Gidoomal ymddeol o'r Bwrdd ar ddiwedd ei dymor, a bu i ni groesawu Laura Sandys (Is-gadeirydd), yr Athro Stuart Reid a Mary Quicke MBE yn aelodau newydd. Mae hyd a lled y gwaith sy'n ein hwynebu yn sylweddol, ond mae'r Bwrdd cyfan yn canolbwyntio'n llwyr ar gyflawni'r canlyniadau iawn i ddefnyddwyr, gan roi iechyd y cyhoedd yn gyntaf.



**Heather Hancock**

Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd



## DATGANIAD Y PRIF WEITHREDWR



**Rwy'n falch o osod Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) gerbron Senedd San Steffan a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a'i gyflwyno i Gynulliad Gogledd Iwerddon. Mae'r fersiwn hon yn trafod ein perfformiad a'n gweithgareddau yn ystod 2017/18 ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon am gost net o £93.1m.**

Mae hon wedi bod yn flwyddyn gadarnhaol i'r ASB ac rydym wedi canolbwyntio ar dair blaenoriaeth gorfforaethol a bennwyd gan ein Bwrdd: paratoi i ymadael â'r UE, cyflawni trawsnewid rheoleiddiol drwy'r rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol, a chyflawni ein gwaith o ddydd i ddydd yn eithriadol o dda.

Mae'r rhaglen ymadael â'r UE a'r rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol ar y trywydd iawn i wireddu ein disgwyliadau a'n cynlluniau. Wrth baratoi i ymadael â'r UE, bu i ni newid ffocws rhywfaint o'n hadnoddau presennol a gofyn am gyllid ychwanegol ar gyfer 2017/18 a 2018/19. Darparodd y Trysorlys £1m o arian ychwanegol yn 2017/18 ac £14m ychwanegol ar gyfer 2018/19 i'n cynorthwyo i baratoi i ymadael â'r UE. Drwy'r rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol, rydym hefyd wedi ailflaenoriaethu gweithgareddau ac ailalinio cerrig milltir i gefnogi'r broses o adael yr UE ac rydym wedi cydweithio â rhanddeiliaid i barhau i ddatblygu'r Model Gweithredu Targed ac i ddechrau datblygu a threalu ei brif nodweddion.

Yn 2017/18, bu i ni wynebu'r digwyddiadau bwyd rhyngwladol a domestig mwyaf ers 2013 – wyau a fewnforiwyd wedi'u halogi â Fipronil a diffyg cydymffurfiaeth yn ffatrioedd torri cig 2 Sisters Food Group a Russell Hume Ltd. Rwy'n falch o'n hymateb i reoli'r digwyddiadau a'r gwaith yr ydym yn ei wneud bob dydd i gyflawni ein blaenoriaethau sylfaenol o sicrhau bod bwyd yn ddiogel a'i fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

Ymhlith ein llwyddiannau eraill, mae'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd wedi parhau i sicrhau bod safonau'n codi. Mae gan dros 95% o fusnesau bwyd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sgôr 'Bodddhaol ar y cyfan' neu uwch (3 neu uwch) ac mae gan 68% sgôr hylendid o 5 ('Da iawn'). Rydym yn credu bod yr orfodaeth i arddangos y sgoriau'n annog busnesau i gydymffurfio â'r gofynion diogelwch bwyd, gan ddiogelu iechyd y cyhoedd yn well.

Rydym wedi parhau â'r arfer o beidio â goddef unrhyw achosion o dorri'r rheolau lles anifeiliaid ac rydym wedi cytuno â'r diwydiant ar brotocol gwirfoddol i ganiatáu i'r Milfeddygon Swyddogol weld lluniau teledu cylch cyfyng mewn lladd-dai i gadarnhau safonau lles anifeiliaid. Rydym yn croesawu deddfwriaeth newydd a fydd yn golygu bod rhaid i bob lladd-dy yn Lloegr osod system teledu cylch cyfyng erbyn mis Tachwedd 2018 i helpu perchnogion busnesau bwyd i ddiogelu lles anifeiliaid.

Mae ein henw da ar ei orau erioed. Mae 78% o'r cyhoedd yn gwybod am yr ASB, ac mae 70% yn ymddiried ynom i wneud ein gwaith – ein sgôr uchaf erioed. Byddwn yn parhau i weithio i ennyn yr ymddiriedaeth honno.

O safbwynt rhyngwladol, mae ein dylanwad a'n harweiniad o ran safonau a modelau cyflawni allweddol wedi cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn diwethaf. Rydym yn croesawu'r ffaith bod ein Cyfarwyddwr Polisi wedi'i ethol yn Is-gadeirydd Codex Alimentarius – mae safonau bwyd

Codex yn ceisio sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu hamddiffyn at safon uchel a bod arferion teg ar waith o ran y fasnach ryngwladol mewn cynhyrchion bwyd. Rydym hefyd wedi cydweithio â gwledydd eraill i ddatblygu ein dull agored a chydweithredol o weithio mewn nifer o feysydd, gan gynnwys cadw

gwyliadwriaeth, lle'r ydym wedi datblygu model gweithredu lefel uchel sy'n seiliedig ar ddata i'w roi ar waith eleni.

I fod y sefydliad gorau y gallwn fod, rydym wedi rhoi'r rhaglen uchelgeisiol, 'Ein Ffordd o Weithio', ar waith, gan gyflwyno contractau cyflogaeth newydd, trawsnewid ein darpariaeth TG, cyflwyno adnoddau cynorthwyol newydd, a newid ein dull o adnabod a datblygu talent. Mae hyn yn rhan o gamau sylweddol i newid diwylliant yr adran, gan hybu dull mwy cynhwysol, cydweithredol, cysylltiedig a chefnogol o weithio. Mae canlyniadau ein Harolwg Pobl yn dangos bod y mentrau hyn ac eraill wedi cael effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad y staff. Rydym hefyd wedi symud ein prif swyddfa yn Llundain, gan arbed mwy o gostau a'n helpu i fodloni targedau ariannol heriol.

Mae llawer mwy i'w wneud ac rwy'n ymrwymo drwy gydol y misoedd nesaf i sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar ddiogelu iechyd y cyhoedd o ran bwyd ac amddiffyn buddiannau ehangach defnyddwyr o ran bwyd.



**Jason Feeney CBE**

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

19 Mehefin 2018

# GWEITHGAREDDAU A PHERFFORMIAD 2017/18

## YR ASB: YN CAEL EI CHYDNABOD FEL RHEOLEIDDIWR RHAGOROL, ATEBOL A MODERN

Yn 2017/18, pennwyd tair blaenoriaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf i gyflawni pwrpas statudol yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sef diogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau ehangach defnyddwyr o ran bwyd. Y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt gan Fwrdd a thîm gweithredol yr ASB yw: rhagweld canlyniadau ymadael â'r UE, cynllunio ar eu cyfer a mynd i'r afael â nhw, rhoi'r rhaglen i ddiwygio'r drefn rheoleiddio bwyd (Rheoleiddio Ein Dyfodol) ar waith, a chyflawni ein gwaith o ddydd i ddydd yn eithriadol o dda.

Bydd ein cynllun busnes corfforaethol blynyddol, sy'n seiliedig ar y blaenoriaethau hyn, a'r nodau strategol a bennir ynddo, yn ein helpu i gyflawni ein huchelgais o fod yn rheoleiddiwr rhagorol, atebol a modern ac i gyflawni ein prif flaenoriaethau.

Yn yr adran hon, rydym yn rhoi adroddiad ar ein gweithgareddau a'n perfformiad yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18 ar sail y tair blaenoriaeth gorfforaethol, y canlyniadau strategol a'r gwaith sy'n gysylltiedig â nhw.



## AMCAN CYFFREDINOL

Rhagweld canlyniadau ymadael â'r UE, cynllunio ar eu cyfer a mynd i'r afael â nhw



YMADAEL  
Â'R  
UE

### Amcanion cyffredinol:

Sicrhau nad yw ymadael â'r UE yn peryglu diogelwch a dilysrwydd bwyd, a datblygu a defnyddio sylfaen dystiolaeth a fydd yn ategu'r trafodaethau ynghylch ymadawiad y DU â'r UE a'n perthynas â'r UE a gwledydd eraill yn y dyfodol, ac yn dylanwadu arnynt.

Sicrhau ein bod yn barod i ymateb mor effeithiol â phosibl i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n codi o delerau terfynol y cytundeb ymadael a pherthynas y DU â'r UE a gwledydd eraill yn y dyfodol.

### Amcanion 2017/18:

- Datblygu cynlluniau ymateb a chynlluniau wrth gefn hyfyw ar gyfer senarios ymadael amrywiol a fyddai'n cyflawni canlyniadau strategol yr ASB, yn unol ag amserlenni a chanllawiau a luniwyd yn ganolog
- Dechrau rhoi'r cynlluniau y cytunir arnynt ar waith i sicrhau na cheir unrhyw ddiffygion mawr ar y diwrnod cyntaf ar ôl ymadael
- Pennu'r cyfleoedd sy'n codi o ymadael â'r UE, manteisio arnynt, a'u bwydo i'r gwaith o gynllunio'r system reoleiddio newydd.

### Datganiad:

Mae'r ASB wedi ailflaenoriaethu rhai o'i hadnoddau i gefnogi rhaglen ymadael â'r UE. Rydym yn parhau i gydweithio'n agos â'r Trysorlys ar y cais i gael yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen yn 2018/19, ac fe gytunwyd ym mis Mawrth 2018 i ddarparu £14 miliwn o arian ychwanegol. Bydd yr arian hwn yn ychwanegol at y cyllid a gymeradwywyd eisoes gan y Trysorlys ar gyfer 2017/18, a bydd yr holl arian yn cynorthwyo'r ASB â'r gwariant y mae eisoes wedi ymrwymo iddo.

Ymhlith prif gerrig milltir 2017/18 roedd:

- cynllunio i ymadael
- cyflwyno ceisiadau am arian i'r Trysorlys
- paratoi cynlluniau cyflawni a llunio prosesau

### Y cynnydd o ran yr amcanion:

Mae'r darlun isod yn portreadu'n gryno elfennau'r swyddogaethau rheoleiddio a gyflawnir gan yr ASB, Safonau Bwyd yr Alban (FSS) a rhannau eraill o Lywodraeth y DU ar hyn o bryd, o fewn fframwaith rheoleiddio'r UE, ynghyd â'r rhannau pwysig hynny o'r swyddogaethau y gall fod angen ymgymryd â nhw ar sail ddomestig ar ôl i'r DU adael fframwaith rheoleiddio'r UE, gan ddibynnu ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

### Regulatory functions carried out by the FSA and others

- Gwybodaeth
- Troseddau bwyd
- Digwyddiadau
- Gwyddoniaeth
- Asesu risg
- Pwerau cyfreithiol
- Polisi
- Rheoli risg a pharodwydd i wynebu risg
- Rheolaethau swyddogol
- Gorfodi
- Rheoli argyfyngau
- Perfformiad corfforaethol
- Asesu effaith
- Ymchwil
- Archwiliadau



### EU functions

ASESU RISG A RHEOLI RISG	ARCHWILIADAU	SYSTEMAU
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymeradwyo/awdurdodi'r pethau a ganlyn cyn eu rhoi ar y farchnad:                             <ul style="list-style-type: none"> <li>– ychwanegion bwyd a bwyd anifeiliaid</li> <li>– ensymau</li> <li>– cyflasynnau</li> <li>– bwyd a bwyd anifeiliaid a ddaswyd yn enetig</li> <li>– bwydydd newydd eraill</li> </ul> </li> <li>• Safonau a rheolaethau sy'n seiliedig ar risg i sicrhau bod bwyd yn parhau i fod yn ddiogel</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwasanaethau sy'n rhoi sicrwydd i bartneriaid masnachu bod gan y DU ddeddfwriaeth gadarn a bod rheolaethau swyddogol ar waith:                             <ul style="list-style-type: none"> <li>– archwiliadau</li> <li>– teithiau canfod ffeithiau</li> </ul> </li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Systemau rhannu gwybodaeth</li> <li>• Ymateb cyflym i helpu i atal bwyd a allai fod yn niweidiol, o unrhyw wlad, rhag cyrraedd defnyddwyr y DU</li> </ul>

Rydym wedi mynd i'r afael â'r broses o ymadael â'r UE mewn modd cyfrifol ac wedi paratoi cynlluniau ar gyfer pob canlyniad posibl. Dros y ddwy flynedd diwethaf, rydym wedi bod yn gweithio ar fyrder i ddod i ddeall yn union sut y bydd ymadael â'r UE yn effeithio ar y polisiâu a'r gwasanaethau presennol mewn ystod eang o sefyllfaoedd.

Rydym wedi bod yn benderfynol o seilio ein gwaith cynllunio cyhyd â phosibl ar safbwyntiau defnyddwyr, y diwydiant a rhanddeiliaid eraill. Rydym wedi gwneud hyn drwy:

- gynnal ymchwil i gasglu barn defnyddwyr
- cynnal trafodaethau bord gron, o dan gadeiryddiaeth Cadeirydd yr ASB, Heather Hancock, i gasglu barn cynrychiolwyr y diwydiant a'r awdurdodau lleol
- mynd i fforwm ehangach ar gyfer y diwydiant a drefnwyd ar y cyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) a'r Ffederasiwn Bwyd a Diod.

Ers mis Hydref 2016, mae'r ASB wedi ymchwilio i farn y cyhoedd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon o ran ymadael â'r UE a bwyd. Drwy'r ymchwil hon, rydym wedi dod i wybod am y cyfleoedd a'r problemau y mae'r cyhoedd yn eu hystyried, a'r hyn y maent yn disgwyl i'r Llywodraeth, gan gynnwys yr ASB, ei wneud, yn ogystal â'r hyn y maent yn ei ddeall am gyfraith a threfn rheoleiddio bwyd yr UE. Cynhaliwyd nifer o arolygon ar-lein gan holi tua 1,500 o oedolion dros 16 oed. Ceir crynodeb o'r canlyniadau hyd at fis Gorffennaf 2017 yn: [www.food.gov.uk/sites/default/files/fsa170904a.pdf](http://www.food.gov.uk/sites/default/files/fsa170904a.pdf)


Nid yw ymadael â'r UE yn newid ein prif flaenoriaeth, sef sicrhau bod bwyd y DU yn parhau i fod yn ddiogel a'i fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Rydym eisoes yn gweithio'n galed i sicrhau na fydd y safonau uchel a geir yn y DU ar hyn o bryd, o ran diogelwch bwyd a diogelu defnyddwyr, yn gostwng ar ôl iddi adael yr UE. Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod trefn reoleiddio gadarn ac effeithiol ar waith o'r diwrnod cyntaf i sicrhau bod modd i'r gwaith barhau yn ôl yr arfer.

Rydym wedi nodi bod y pedwar maes pwysig a ganlyn yn flaenoriaeth uchel:

- **Cadw gwyliadwriaeth** – rydym wedi cychwyn ar raglen i adolygu ac i uwchraddio'r ffordd yr ydym yn gweithredu drwyddi draw.
- **Asesu risg** – mae ein cynlluniau wrth gefn ar gyfer ymadael â'r UE yn caniatáu ar gyfer cynnydd sylweddol yn ein gallu gwyddonol a'n galluoedd eraill o ran iechyd y cyhoedd ac asesu risg diogelwch bwyd.
- **Cyfathrebu ynghylch risgiau** – rydym yn cynllunio ar gyfer cynnydd cymesur o ran cyfathrebu ynghylch risgiau.
- **Rheoli risg** – cafodd yr ASB ei chreu, a'i swyddogaethau statudol eu rhoi, mewn cyd-destun lle'r oedd y rhan fwyaf o'r penderfyniadau ynghylch rheoli risgiau diogelwch bwyd yn cael eu gwneud ar lefel yr UE. Ar hyn o bryd, mae'r ASB yn rhoi cyngor gwrthrychol i Lywodraeth Ei Mawrhydi ar lefel Gweithgor y Comisiwn Ewropeaidd mewn trafodaethau am fwyd a bwyd anifeiliaid. Rydym yn cynnal trafodaethau ag adrannau eraill y Llywodraeth, gyda golwg ar roi trefniadau ar waith a fydd yn caniatáu i benderfyniadau o'r fath gael eu gwneud yn y DU, os bydd eu hangen ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.



Pa bynnag ddull a ddefnyddir, cynigir y dylai'r ASB asesu'r canlyniad ar sail yr egwyddorion a ganlyn:



## AMCAN CYFFREDINOL

Model rheoleiddio newydd sy'n rhoi mwy o gyfle i ni ddiogelu defnyddwyr mewn system fwyd fyd-eang sy'n newid yn gyflym

RHEOLEIDDIO  
EIN DYFODOL

### Amcanion cyffredinol:

**Amcan cyffredinol:** Datblygu a gweithredu dull newydd a chynaliadwy o reoleiddio sy'n annog busnesau i newid eu hymddygiad er budd defnyddwyr, a chynllunio a gweithredu model cyflawni rheoleiddiol sy'n sicrhau bod dull hirdymor effeithiol ac ariannol gynaliadwy ar waith i reoleiddio diogelwch bwyd ar draws y gadwyn fwyd, gan ddefnyddio'r holl ddata sydd ar gael.

### Amcanion 2017/18:

- Dylunio model newydd i reoleiddio busnesau bwyd yn y sector arlwygo a'r sector manwerthu.
- Llunio cynigion ar gyfer cynllun cofrestru manylach i fusnesau a datblygu'r cynigion hyn i'w braenaru.
- Llunio cynigion ar gyfer dull newydd o segmentu busnesau bwyd ar draws y gadwyn fwyd.

### Datganiad:

Pan oeddem yn llunio'r rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol, prif ystyriaethau'r ymarfer blaenoriaethu oedd:

- yr adnoddau y byddai eu hangen ac argaeledd yr adnoddau hynny
- dibyniaethau ar draws y rhaglen
- hybu ein gallu i fod yn Awdurdod Cymwys Canolog modern ac effeithiol, a dangos ein bod yn sefydliad o'r fath

Mae'r flwyddyn adrodd hon yn cyd-daro ag ail flwyddyn y rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol sy'n rheoli'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig ag adolygu ac ailfodelu'r modd y mae'r ASB a'r awdurdodau lleol yn rheoleiddio busnesau bwyd. Mae'r rhaglen hon yn cael ei chydgyssylltu'n agos â rhaglen yr ASB i ymadael â'r UE, ac mae'r rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol wedi ailflaenoriaethu gweithgareddau ac ailalinio cerrig milltir er mwyn iddynt ystyried effaith ymadael â'r UE.

### Cynnydd o ran yr amcanion:


Byddwn yn defnyddio'r rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol i ddatblygu system effeithiol, cymesur a chadarn i sicrhau bod busnesau'n bodloni eu cyfrifoldebau dros gynhyrchu bwyd sy'n ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

Rydym wedi blaenoriaethu'r cynllun cofrestru manylach a'r dull segmentu newydd oherwydd y byddant yn hollbwysig i sicrhau bod modd rhoi'r Model Gweithredu Targed ar waith, yn enwedig o ran sicrwydd lle bydd mwy o opsiynau ar gael i fusnesau nag a geir ar hyn o bryd gydag 'un dull sy'n addas i bawb'.

Ymhellach, o ddatblygu a gweithredu trefniadau newydd i gofrestru busnesau ac o ddefnyddio'r data sy'n deillio ohonynt i sicrhau bod modd i'r ASB gael gafael ar fanylion pob busnes bwyd, bydd yn ategu ein gallu i fod yn Awdurdod Cymwys Canolog ac i ddangos ein bod yn sefydliad o'r fath ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

I helpu i ddatblygu datrysiad digidol, mae'r ASB wedi caffael fframwaith strategol dwy flynedd gydag IBM. Yn unol â llawlyfr Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth ar gyfer datblygu digidol, mae'r rhaglen wedi cwblhau'r cam darganfod ac mae disgwyl iddi gwblhau'r cam alffa ym mis Ebrill 2018 ar gyfer a segmentu a chofrestru uwch.

Bydd yn hollbwysig disgrifio rôl yr ASB, yr awdurdodau lleol a'r sector preifat o fewn y model gweithredu newydd i sicrhau bod rhanddeiliaid, gan gynnwys defnyddwyr, yn cefnogi'r model ac yn cyfrannu'n barhaus at ei ddatblygiad. Mae'r rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol wedi parhau i ddatblygu gwahanol fersiynau o'r Model Gweithredu Targed newydd:



Mae gwybod bod busnesau'n bodloni eu cyfrifoldebau o ran diogelwch bwyd yn rhan allweddol o'r Model Gweithredu Targed. Bwriedir seilio'r farn hon ar ystod lawer ehangach o ddata sy'n deillio o fusnesau a chynlluniau trydydd parti, yn ogystal â'r rheolaethau swyddogol. Yn y dyfodol, bwriedir defnyddio data busnesau i lywio natur, amllder a dwyster y rheolaethau swyddogol y mae angen ymgymryd â nhw. Fel rhan o'r gwaith hwn, aethpwyd ati i ddatblygu fframwaith sicrwydd ac i bwysu a mesur gwahanol ffyrdd o ddefnyddio sicrwydd preifat.

Mae'r rhaglen Rheoli Ein Dyfodol hefyd wedi pwysu a mesur camau i sefydlu strategaethau arolygu cenedlaethol ar gyfer partneriaethau diogelwch a safonau bwyd drwy astudiaeth ddichonoldeb a phrosiect braenaru. Bydd y gwaith hwn yn pennu safon ar gyfer y prif awdurdodau<sup>1</sup> hynny sydd am sefydlu a gweithredu strategaeth arolygu genedlaethol, ac yn creu systemau llywodraethu a sicrwydd er mwyn i'r ASB gael trosolwg priodol ar y prif awdurdodau hynny sy'n gweithredu strategaeth arolygu genedlaethol.

Cyflwynodd y rhaglen Rheoli Ein Dyfodol bapur i Fwrdd yr ASB ym mis Rhagfyr 2017 a oedd yn amlinellu canlyniadau'r gwaith a wnaed dros y flwyddyn flaenorol i gwmpasu cysyniad yr Archwilydd Rheoleiddiol Ardystiedig. Penderfynodd Bwrdd yr ASB fod datblygu'r cysyniad ymhellach yn llai o flaenoriaeth ar hyn o bryd. Nododd y Bwrdd yr hyn a ganlyn:

- Dylid ailedrych ar gysyniad yr Archwilydd Rheoleiddiol Ardystiedig pan fydd mwy o dystiolaeth ar gael ynghylch y rhannau hynny o'r system newydd lle mae bylchau'n parhau o ran sgiliau arbenigol, a pha un a allai'r Archwilydd Rheoleiddiol Ardystiedig weithredu'n effeithiol yn y sefyllfaoedd hynny.
- Cadarnhaodd y Bwrdd ei fod yn cefnogi mynd ati i gryfhau cyfraniad cynlluniau sicrwydd preifat a reoleiddir o ran rhoi sicrwydd bod busnes yn cydymffurfio, gan gynnwys y cyfle i wella eu cwmpas ac i gael hyd i ragor o ffyrdd o brofi dulliau rheoli a diwylliant o ran diogelwch, hylendid a safonau bwyd.

<sup>1</sup> Mae'r Cynllun Prif Awdurdod yn gyfle i fusnesau, neu grŵp o fusnesau, greu partneriaeth ag un awdurdod lleol a fydd yn rhoi cyngor cadarn a dibynadwy y gall cynghorau eraill ei ystyried pan fyddant yn rheoleiddio'r busnes yn lleol.

## AMCAN CYFFREDINOL

Wrth i ni reoli'r newid sy'n dod, rhaid i ni sicrhau bod y peiriant rheoleiddio'n dal i redeg yn esmwyth

.....  
**CYFLAWNI EIN**  
**GWAITH**  
**O DDYDD I DDYDD**  
**YN EITHRIADOL O**  
**DDA**  
 .....

### Amcanion cyffredinol:

Rhan o ddyletswydd rheoleiddiwr rhagorol, atebol a modern yw cael effaith fawr ar sail adnoddau bach: ceisio cyflawni'r gwaith o ddydd i ddydd yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol, diogelu defnyddwyr, a dangos ein bod yn rhoi gwerth rhagorol am arian.

### Datganiad

I barhau i gyflawni ein gwaith o ddydd i ddydd yn eithriadol o dda, bydd angen i'r ASB ganolbwyntio ar berfformiad – cyflawni cyfrifoldebau'r ASB, a datblygu, hybu a gwireddu ei gallu.

### Perfformiad

I gyflawni ei huchelgais o fod yn rheoleiddiwr rhagorol, atebol a modern, mae Pwyllgor Busnes yr ASB yn cytuno ar dargedau perfformiad. Ar ôl cytuno arnynt, fe'u nodir yn ein Hadroddiad Perfformiad ac Adnoddau. Mewn meysydd lle mae gan yr ASB reolaeth lwyr dros berfformiad, bydd yn cytuno ar 'dargedau', ac mewn meysydd lle mae'n chwarae rôl arweiniol gyda rhanddeiliaid eraill, fel y diwydiant a defnyddwyr, bydd yr ASB yn pennu 'uchelgeisiau' sy'n cydnabod na all yr ASB reoli'r canlyniadau hyn yn llwyr. Trafodwyd adolygiad cyntaf y targedau a'r uchelgeisiau hyn gan y Pwyllgor Busnes ym mis Mawrth 2018, a chafwyd trafodaeth ddilynol yng nghyfarfod y Pwyllgor Busnes ym mis Mehefin 2018. Cynhelir trafodaethau eraill yn ôl y gofyn. Mae'r Cyfarwyddwyr hefyd yn estyn mesurau a thargedau perfformiad ar draws yr ASB i gefnogi ymhellach y weledigaeth o fod yn rheoleiddiwr rhagorol, atebol a modern.

Fel rhan o'n gallu i gyflawni'r amcan 'Cyflawni ein gwaith o ddydd i ddydd yn eithriadol o dda', rydym yn canolbwyntio ar sicrhau bod bwyd yn ddiogel a'i fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, ac ar fod y sefydliad gorau y gallwn fod.

O ran sicrhau bod bwyd yn ddiogel a'i fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, ein nod yw darparu bwyd y gall y genedl ymddiried ynddo wrth ddynesu at 2019 a thu hwnt, a hynny drwy ein swyddogaethau rheoleiddio. Byddwn hefyd yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r hanfodion hylendid bwyd (oeri, coginio, glanhau ac atal croeshalugi) a gwyddoniaeth yr ASB. Mae'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd hefyd yn parhau i ddiogelu'r cyhoedd rhag troseddau bwyd difrifol.

I fod y sefydliad gorau y gallwn fod, fel rheoleiddiwr rhagorol, atebol a modern cydnabyddedig, ein nod yw bod yn rheoleiddiwr sy'n gadarn yn wyneb newid, yn manteisio ar ddatblygiadau newydd, yn parhau i fod yn agored ac yn dryloyw, ac yn defnyddio ffyrdd mwy doeth o gyflawni'r gwaith.

Byddwn yn dangos yr hyn a gyflawnwyd gennym drwy:

- Sicrhau bod gennym enw da a gweithio'n galed i'w gynnal.

- Comisiynu a chreu'r wyddoniaeth a'r dystiolaeth sydd eu hangen i bennu a yw bwyd yn ddiogel ac yn ddilys.
- Cadw gwylidwriaeth a chydgyssylltu'r gwaith hwnnw i bennu pethau a allai fod yn broblem neu'n risg.
- Pennu safonau diogelwch a dilysrwydd bwyd ar sail ein gwyddoniaeth a'n gwaith cadw gwylidwriaeth.
- Dylunio a sicrhau'r drefn sy'n peri i fusnesau gydymffurfio â'n safonau.
- Ymyrryd yn gadarn o ran materion sy'n peryglu iechyd y cyhoedd neu ymddiriedaeth y cyhoedd mewn diogelwch a dilysrwydd bwyd, naill ai'n uniongyrchol, e.e. camau gorfodi a'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd, neu drwy roi cyngor i eraill.
- Rhoi adroddiadau rheolaidd am lefelau cydymffurfio, effaith reoleiddiol, canlyniadau iechyd y cyhoedd a mesurau eraill sy'n hybu ymddiriedaeth.
- Cyflawni ein cylch gwaith statudol gyda'r nod o gefnogi busnesau bwyd cyfrifol.
- Defnyddio arbenigedd academaidd, technegol a thechnolegol blaenllaw, boed yn arbenigedd mewnol neu'n arbenigedd unrhyw drydydd parti y byddwn yn penderfynu cydweithio ag ef.
- Defnyddio data i osod sylfaen awdurdodol ar gyfer ein penderfyniadau ac i ddangos ein bod yn atebol.
- Bydd y cyhoedd yn gwybod amdanom ac yn ymddiried ynom i ddiogelu eu buddiannau ac i ddarparu gwybodaeth a chyngor dibynadwy iddynt.


Mae'r prif feysydd perfformiad yn cynnwys y meysydd a ganlyn.

## CLEFYDAU A GLUDIR GAN FWYD




Y bobl sy'n cynhyrchu ac yn cyflenwi bwyd sy'n gyfrifol am sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Amcangyfrifir bod clefydau a gludir gan fwyd yn effeithio ar filiwn o bobl yn y DU bob blwyddyn, gan gostio dros £1 biliwn i'r economi. Isod, dangosir achosion o'r pedwar prif bathogen bacteriol mewn pobl a gafodd eu cadarnhau mewn labordy yn y DU rhwng 2000 a 2017. Dim ond yn y lleiafrif o achosion y mae pobl yn rhoi gwybod am achosion ac y caiff samplau eu hanfon i'w dadansoddi mewn labordy.


### Campylobacter



### Salmonella





**Escherichia coli O157****Listeria monocytogenes**

Ffynhonnell: Public Health England, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Health Protection Scotland a Public Health Agency for Northern Ireland

Gall ffactorau sydd tu hwnt i reolaeth yr ASB a'r diwydiant, e.e. amodau hinsoddol, gael effaith sylweddol nad ydym yn ei deall yn llwyr hyd yma ar nifer yr achosion o Campylobacter. Fodd bynnag, nid yw'r ymdrechion parhaus a wneir gan y prif fânwerthwyr a phroseswyr (sy'n cyfrif am oddeutu 80% o'r cywion iâr ffres cyfan a gynhyrchir yn y DU) i leihau lefelau'r Campylobacter ar eu cywion iâr yn ansylweddol, ac mae'n debygol bod cysylltiad rhwng yr ymdrechion hyn a'r risg is i ddefnyddwyr.

**Arolwg mânwerthu**


Caiff lefel y Campylobacter ar groen cyw iâr ei fesur yn ôl nifer yr unedau ffurfio cytref fesul gram (cfu/g). Mae'r prif ffocws ar y lefelau uchel o Campylobacter – sef y rheiny dros 1,000cfu/g.

Cynhaliodd yr ASB yr arolwg cyntaf o fis Chwefror 2014 tan fis Chwefror 2015, yr ail arolwg o fis Gorffennaf 2015 tan fis Chwefror 2016, a'r trydydd arolwg o fis Awst 2016 tan fis Gorffennaf 2017 (caiff y prosiect llawn o fis Awst 2016 tan fis Gorffennaf 2017 ei gyhoeddi ar [www.food.gov.uk](http://www.food.gov.uk) erbyn diwedd 2018). Mae'r pedwerydd arolwg wrthi'n cael ei gynnal rhwng mis Awst 2017 a mis Gorffennaf 2018.

Ar ôl trafod menter yr ASB â'r diwydiant, cytunodd y naw mânwerthwr mwyaf i gyhoeddi eu canlyniadau Campylobacter eu hunain ar eu gwefannau i ddefnyddwyr o fis Gorffennaf 2017. Mae'r gwaith samplu a dadansoddi a wneir gan y mânwerthwyr yn cyd-fynd â'r protocolau cadarn a bennwyd gan yr ASB i sicrhau bod modd cymharu'r canlyniadau a gyhoeddir ganddynt. O ganlyniad i'r trefniant hwn, nid yw'r naw mânwerthwr hyn yn cael eu cynnwys yn ein harolwg mânwerthu blynyddol mwyach, ond gall defnyddwyr gadw llygad ar ymrwymiad parhaus y mânwerthwyr i ddileu Campylobacter. Isod, ceir graff sy'n dangos canlyniadau'r mânwerthwyr hyd yma:

**% of Chicken Skin Samples >1000cfu/g Campylobacter**

% y samplau croen cyw iâr â lefel uwch o Campylobacter na 1000cfu/g



Yn y tabl isod, dangosir lefelau canrannol cyffredinol y Campylobacter yn ôl data'r manwerthwyr:

Lefelau halogi (cfu/g)	Misoedd profi	
	Gorffennaf – Medi 2017	Hydref – Rhagfyr 2017
<10	44.1%	52.7%
10-99	30.5%	24.3%
100-1,000	20.3%	18.5%
>1,000	5.1%	4.5%


Er i'r rhaglen Campylobacter ddod i ben ddiwedd mis Mawrth 2017, rydym yn dal i gynnal yr arolwg manwerthu. Erbyn hyn, rydym yn canolbwyntio ar fusnesau llai lle'r ydym yn tybio y gallem wneud gwelliannau pellach. O ganolbwyntio mwy ar gyflenwyr o'r fath, bydd yn gyfle i estyn y gwelliannau a wnaed gan y cadwyni manwerthu mawr ar draws y gadwyn gyflenwi gyfan. Felly, bydd yr arolwg manwerthu'n canolbwyntio ar fânwerthwyr llai, masnachwyr annibynnol a stondinau marchnad gan fod proseswyr llai yn fwy tebygol o gyflenwi cynnyrch iddynt. Er bod y ffatrioedd hyn yn cyfrif am gyfran lai o'r farchnad, mae llawer ohonynt yn cyflenwi cynnyrch i arlwywyr a manwerthwyr lleol. Mae'r ASB yn parhau i ymrwymo i leihau lefelau'r Campylobacter ar yr holl gywion iâr a gynhyrchir yn y DU, a bydd yn cadw llygad barcud ar ganlyniadau'r manwerthwyr mawr i sicrhau eu bod yn dal i ddangos eu bod yn mynd i'r afael â Campylobacter.

## CYDYMFFURFIAETH GWEITHREDWYR BUSNESAU CIG Â'R RHEOLIADAU


**MAE BWYD  
YN CYD-FYND  
Â'R HYN SYDD  
AR Y LABEL**

Cyfrifoldeb gweithredwyr busnesau bwyd yw cydymffurfio â'r rheoliadau. Yn ogystal ag arolygiadau a rheolaethau swyddogol arferol, mae'r ASB yn cynnal archwiliadau i gadarnhau bod busnesau'n cydymffurfio ac mae'n cydweithio â gweithredwyr busnesau bwyd i bennu lle mae angen gwella. Pan fydd archwiliad yn canfod nad yw gweithredwr yn cydymffurfio â'r rheoliadau, bydd rhaid iddo wella ar frys.


### Gweithredwyr busnesau bwyd yn Lloegr



### Gweithredwyr busnesau bwyd yng Ngogledd Iwerddon



### Gweithredwyr busnesau bwyd yng Nghymru



Nid oedd unrhyw weithredwyr busnesau bwyd yng Nghymru na Gogledd Iwerddon wedi cael sgôr ‘angen gwella ar frys’.

### Lles anifeiliaid

Mae'r rhaglen ‘**Atal, Rhwystro, Canfod, Gorfodi**’ yn cael ei rhoi ar waith drwy'r Cynllun Gweithredu Lles Anifeiliaid.

Yn gryno, rydym wedi:

Cryfhau'r drefn o gadarnhau bod busnesau'n cydymffurfio drwy:

- Gyflwyno rhaglen flynyddol o archwiliadau ar themâu lles.
- Defnyddio Tîm Sicrwydd Lles gweithredol ar draws y gweithrediadau maes.
- Paratoi, llunio a lansio *aide memoire* gorfodi i wella ansawdd yr atgyfeiriadau gorfodi o'r maes.

Gwella atebolrwydd a chydweithio drwy:

- Sefydlu'r Grŵp Llywio Lles Anifeiliaid o dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Gweithredu, gan gynnwys cynrychiolaeth o DEFRA, i wella'r trefniadau llywodraethu a throsolwg.
- Sefydlu canolfan les ganolog gyda thîm pwrpasol sy'n arwain ac yn cydgysylltu'r gwaith o ran lles anifeiliaid, gan gryfhau'r berthynas â DEFRA a Llywodraeth Cymru.
- Rhoi diweddariad sefydlog am les anifeiliaid i'r Gweithgor Partneriaeth sy'n cael ei gadeirio ar y cyd gan y diwydiant a'r ASB.
- Cydweithio â'r diwydiant ar fentrau penodol fel y protocol ar gyfer defnydd gwirfoddol o deledu cylch cyfyng a'r lefelau diffyg cydymffurfiaeth yn y diwydiant dofednod.
- Cynnwys lles anifeiliaid fel dangosydd perfformiad allweddol yn y fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer y contract gwasanaethau milfeddygol newydd.

Gwella addysg ac ymwybyddiaeth drwy:

- Roi sylw rheolaidd i les anifeiliaid drwy'r sianeli cyfathrebu mewnol.
- Rhoi diweddariadau rheolaidd am les mewn canllawiau a chyfarwyddiadau swyddogol.
- Cyhoeddi canllawiau arferion gorau pan fydd busnesau bwyd, gweithrediadau rheng flaen a/ neu'r lobi lles anifeiliaid yn rhoi gwybod am risgiau posibl i les anifeiliaid.

Gwella ansawdd ein gwaith dadansoddi a'n hadroddiadau drwy:

- Roi adroddiadau mwy strwythuredig, amserol a rheolaidd am achosion lle nad yw busnesau'n cydymffurfio â'r rheolau lles anifeiliaid.
- Dadansoddiad cynhwysfawr gan Is-adran Gwyddoniaeth a Thystiolaeth yr ASB am ddata diffyg cydymffurfiaeth â rheolau lles anifeiliaid o 2015/16 tan 2016/17 sy'n dangos tuedd sefydlog mewn lladd-dai ac ar ffermydd, ond cynnydd sylweddol mewn achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth wrth gludo anifeiliaid. Rydym wedi tynnu sylw DEFRA a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion at hyn.
- Cyflwyno system gorfodi ac adrodd newydd ar gyfer lles anifeiliaid – mae hyn wedi caniatáu i ni ddechrau rhoi adroddiadau rheolaidd am nifer yr achosion o ladd heb stynio.

## Y CYNLLUN SGORIO HYLENDID BWYD



Mae'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) yn darparu gwybodaeth am safonau hylendid busnesau sy'n darparu bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, fel bwytai, tafarndai, caffis, tecawês a gwestai, yn ogystal âg archfarchnadoedd a siopau bwyd eraill. Mae'r CSHB yn seiliedig ar ganlyniadau arolygiadau hylendid bwyd swyddogol, ac mae'n cyhoeddi'r wybodaeth honno mewn ffordd sy'n hawdd i ddefnyddwyr ei deall. Mae'n sicrhau bod modd i bobl wneud penderfyniadau gwybodus pan

fyddant yn bwyta allan neu'n prynu bwyd. Drwy rymuso pobl yn y ffordd hon, bwriedir iddo newid ymddygiad busnesau er mwyn codi safonau hylendid a, thrwy hynny, leihau'r achosion o salwch a gludir gan fwyd. Mae dadansoddiad a wnaed gan yr ASB<sup>2</sup> wedi pennu cysylltiad rhwng sgoriau uwch a chanfod llai o feicrobau mewn busnesau bwyd, ac mae hyn yn y pen draw yn lleihau'r risg i ddefnyddwyr o salwch a gludir gan fwyd.

Mae'r CSHB yn gweithredu mewn partneriaeth â holl awdurdodau lleol Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n cynnal yr arolygiadau y mae'r sgoriau'n seiliedig arnynt. Mae'r sgoriau'n amrywio o 5 ('Da iawn') i 0 ('Angen gwella ar frys').




Ar 31 Mawrth 2018, roedd sgoriau hylendid bwyd wedi'u cyhoeddi ar gyfer 431,439 o sefydliadau bwyd ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Roedd 98.9% o'r busnesau a sgoriwyd yng Ngogledd Iwerddon wedi cael sgôr o 3 neu uwch; yng Nghymru, roedd gan 95.3% o'r busnesau sgôr o 3 neu uwch; ac yn Lloegr, roedd 94.6% o'r busnesau wedi cael sgôr o'r fath. Mae cyfran y busnesau sy'n cael sgôr o '5 – Da iawn' wedi cynyddu'n gyson, gyda 76.3% yn cyrraedd y safon hon yng Ngogledd Iwerddon, 66.2% yng Nghymru a 68.0% yn Lloegr.

2 [www.food.gov.uk/sites/default/files/csareportfhrsfinal.pdf](http://www.food.gov.uk/sites/default/files/csareportfhrsfinal.pdf)




Mae'r graffiau isod yn dangos y sgoriau wedi'u dosbarthu yn ôl canran a gwlad:


### Sgoriau'r CSHB Lloegr




### Gogledd Iwerddon



### Cymru




### Cyfanswm



Yn ogystal â bod yn gynllun llwyddiannus o ran sgoriau busnes, mae data defnyddwyr y CSHB yn dangos bod ymwybyddiaeth ohono wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ers 2010, a hynny o 45% i 55% yn 2017. Y sticeri sy'n cael eu harddangos ar safleoedd busnesau bwyd yw'r ffynhonnell wybodaeth a ddefnyddir amlaf gan ddefnyddwyr (84%). Mae hyn yn golygu bod defnyddwyr yn fwy ymwybodol o fusnesau sy'n ddiogel ac yn hylan. Roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn 2017 eu bod wedi gweld y CSHB neu glywed amdano yn uwch yng Nghymru (75%) nag yn Lloegr (54%) a Gogledd Iwerddon (54%).

Mae'r graff isod yn dangos y newidiadau o ran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn adnabod sticeri'r CSHB dros gyfnod yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

**Adnabod y CSHB**



Mae'r camau i'w gwneud yn orfodol i fusnesau arddangos eu sgoriau hylendid yn adeiladu ar effaith gadarnhaol y CSHB yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Mae nifer y busnesau yng Nghymru sy'n cael sgôr o 5 wedi cynyddu 21% ers iddi ddod yn orfodol yn 2013 i fusnesau yno arddangos eu sgoriau. Mae'r ASB yn dal i ymrwymo i wireddu'r buddion hyn yn Lloegr, oherwydd bydd hyn o fudd i ddefnyddwyr ac i fusnesau sy'n cyrraedd safon uchel. Bydd hefyd yn rhoi mwy o gymhelliad i fusnesau â safonau gwael fynd ati i wella.

Dangosodd archwiliad o fusnesau ym mis Medi 2017 mai 49% o'r safleoedd yn Lloegr sy'n arddangos eu sgoriau tu allan o dan y cynllun gwirfoddol o'i gymharu ag 84% yng Nghymru ac 82% yng Ngogledd Iwerddon o dan y cynlluniau statudol. Pan gyflwynwyd y cynllun gwirfoddol gyntaf yn 2010, roedd 32% o fusnesau Lloegr yn arddangos eu sgoriau tu allan, 21% yng Nghymru a 38% yng Ngogledd Iwerddon.

Ym mis Chwefror 2018, cyflwynodd yr ASB yng Nghymru y cyntaf o adolygiadau tair blynedd gofynnol y CSHB i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r adroddiad, sy'n rhoi trosolwg ar hynt y cynllun yng Nghymru, ar gael yn: <http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11433/gen-ld11433-w.pdf>.

## DIGWYDDIADAU BWYD



Un o hawliau sylfaenol defnyddwyr yw'r gallu i wneud penderfyniadau gwybodus am y bwyd y maent yn dewis ei brynu a'i fwyta. Nid yw ond yn bosibl iddynt wneud hynny os yw bwyd yn cael ei adnabod yn gywir a'i labelu'n briodol.

Mae'r ASB yn chwarae rôl arweiniol bwysig i sicrhau bod pobl sy'n cynhyrchu ac yn cyflenwi bwyd yn cyflawni eu cyfrifoldebau: hynny yw, yn sicrhau ei fod yn ddiogel a'i fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.



O dan Erthygl 19 o Reoliad Ewropeaidd 178/2002, mae'n ofynnol i weithredwyr busnesau bwyd roi gwybod i'r awdurdodau cymwys os oes ganddynt le i gredu nad yw bwyd a fewnforiwyd, a gynhyrchwyd, a weithgynhyrchwyd neu a ddosbarthwyd ganddynt yn cydymffurfio â'r gofynion diogelwch bwyd. Rydym yn cyfeirio at hysbysiadau o'r fath, ac yn ymdrin â nhw, fel 'digwyddiadau'.

Yr ASB a'r awdurdodau bwyd (awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd) yw'r awdurdodau cymwys yn y DU. Gall y Comisiwn Ewropeaidd a'r Aelod-wladwriaethau hefyd rannu gwybodaeth am ddiogelwch bwyd â'i gilydd gan ddefnyddio'r System Rhybuddio Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (RASFF).

Mae'r ASB yn diffinio digwyddiad fel: 'Unrhyw ddigwyddiad lle ceir pryderon, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, ynghylch bygythiad gwirioneddol neu fygythiad a amheuir i ansawdd neu uniondeb bwyd a bwyd anifeiliaid lle gall fod angen ymyrryd i ddiogelu buddiannau defnyddwyr.'

### Perfformiad


Ers 2015, mae nifer y digwyddiadau y mae ein Tîm Digwyddiadau wedi cael gwybod amdanynt wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.




Gall llawer o ffactorau effeithio ar nifer y digwyddiadau y rhoddir gwybod amdanynt bob blwyddyn, gan gynnwys tueddiadau newydd ymhlith defnyddwyr, newidiadau deddfwriaethol, datblygiadau technolegol, nifer y profion a wneir, a'r tywydd hyd yn oed. O'r herwydd, dim ond mesur o nifer y digwyddiadau y mae'r ASB wedi cael gwybod amdanynt yw nifer yr hysbysiadau sydd wedi dod i law, ac nid yw'n awgrymu bod bwyd yn llai diogel. Yn hytrach, mae'n darlunio newidiadau o ran ymddygiad, technoleg a gofynion statudol.

Mae'r graffiau a ganlyn yn darlunio'r duedd o ran y data yn ystod y blynyddoedd adrodd:

**Yr hysbysiadau a ddaeth i law**



**Y rhybuddion a gyhoeddwyd**



Mae'r data cyfredol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018 yn dangos bod yr ASB wedi cael gwybod am 2,331 o ddigwyddiadau bwyd, bwyd anifeiliaid a halogi amgylcheddol, ac ymateb iddynt, yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Cyhoeddwyd 140 o rybuddion bwyd yn ystod yr un cyfnod.

Mae'r darlun uchod yn caniatáu i ni gymharu nifer yr hysbysiadau a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn adrodd hon â'r niferoedd a ddaeth i law mewn blynyddoedd blaenorol.

Yn ogystal yn 2017/18, daeth 3,888 o hysbysiadau RASFF i law, gwnaed 411 o hysbysiadau RASFF a daeth 228 o hysbysiadau i law er mwyn gweithredu yn y DU.

Mae'n bosibl y gellir priodoli'r cynnydd yn yr hysbysiadau yn ystod y cyfnodau adrodd i ddigwyddiadau penodol a'r ymddygiadau sy'n deillio ohonynt, gan gynnwys:

- Cyflwyno Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr yr UE (1169/2011) ym mis Rhagfyr 2014 sydd wedi pennu safonau newydd ac wedi arwain at gynnydd mewn digwyddiadau alergedd yn sgil labelu pecynnau'n anghywir.
- Newidiadau yn y patrymau mudo byd-eang oherwydd aflonyddwch gwleidyddol mewn gwledydd eraill sydd wedi arwain at gynnydd yn nifer y digwyddiadau sy'n ymwneud â chanfod teithwyr cudd (y rheiny sy'n ceisio osgoi rheolaethau mewnfudo) mewn cerbydau bwyd.
- Datblygiadau diweddar o ran dilyniannu genom cyfan a mwy o gydweithio â Public Health England sydd wedi arwain at bennu achosion o salwch a gludir mewn bwyd nad oeddem yn gwybod amdanynt o'r blaen. Mae hyn yn ein galluogi i weithredu'n gynt i reoli achosion, gan ddiogelu defnyddwyr rhag i'r haint ledaenu ymhellach.
- Y duedd ymhlith defnyddwyr o yfed llaeth yfed amrwd a'r cynnydd cyfatebol yn nifer y ffermydd llaeth sy'n ei gynhyrchu yn arwain at gynnydd mewn digwyddiadau microbiolegol.
- Y duedd ymhlith defnyddwyr o brynu atchwanegiadau bwyd oddi ar y rhyngwrwd er budd iechyd tybiedig yn arwain at sefyllfa lle mae nifer o weithgynhyrchwyr bwyd yn cynnwys cynhwysion nad ydynt wedi'u hawdurdodi ac, mewn rhai achosion, sylweddau niweidiol yn eu cynnyrch (e.e. sylweddau llosgi braster fel 'DNP', 2,4-Dinitrophenol).
- Y duedd o ddefnyddio bwyd anifeiliaid anwes amrwd oherwydd bod pobl yn tybio ei fod o ansawdd gwell yn arwain at gynnydd yn nifer y digwyddiadau sy'n gysylltiedig â bwyd anifeiliaid anwes.<sup>3</sup>
- Gwelliant cyffredinol o ran rhoi gwybod am ddigwyddiadau gan awdurdodau lleol a'r diwydiant.

<sup>3</sup> Yr ASB yw'r awdurdod cymwys canolog sy'n gyfrifol am roi'r rheolaethau bwyd anifeiliaid swyddogol ar waith ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd ac anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd yn y DU, gan gynnwys bwyd anifeiliaid anwes. O ganlyniad, rydym yn gyfrifol am y rheoliadau bwyd anifeiliaid anwes ac am orfodi'r rheolau labelu bwyd anifeiliaid drwy awdurdodau lleol Cymru a Lloegr.

## YR UNED GENEDLAETHOL TROSEDDAU BWYD

### Perfformiad



Ers iddi ddechrau gweithredu'n llwyr ym mis Ebrill 2016, mae'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd wedi derbyn a dadansoddi gwybodaeth sydd wedi arwain at rannu dros 1,800 o adroddiadau gwybodaeth tactegol â phartneriaid gorfodi. Mae'r adroddiadau hyn yn amrywio'n eang o ran testun a phenodoldeb.

Mae'r canlyniadau mesuradwy a ganlyn ymhlith y rheiny sy'n deillio o waith datblygu gwybodaeth yr Uned:

- Mae nifer y marwolaethau yn y DU sy'n gysylltiedig â chymryd 2,4 dinitrophenol (DNP) fel atchwanegiad deietegol wedi gostwng o un y mis ar gyfartaledd yn ystod hanner cyntaf 2015 i ddim ond tair marwolaeth yn ystod y 32 mis ers i'r Uned ddechrau ar ei gwaith yn y maes hwn.
- Rhwystrwyd bron i 400 tunnell o gynnyrch diod feddal annilys rhag cyrraedd silffoedd siopau'r DU ac aeth mewforwyr ati i gymryd camau ataliol yn sgil hynny.
- Mae adnabod meysydd a all fod yn agored i dwyll yn rhan allweddol o drefn rheoleiddio bwyd y DU.
- Cafodd mwy na 300,000 dos angheuol o DNP eu tynnu oddi ar y farchnad, a'r rheiny'n werth £350,000 ar y stryd.
- Cafwyd y gollfarn gyntaf yn y DU am werthu DNP yn anghyfreithlon ac fe gafodd tri diffynnydd eu cyhuddo o ddynladdiad yn sgil ymchwiliad arall. Bydd yr achosion hyn yn mynd gerbron y llys yn 2018.

Mae allbwn strategol yr Uned yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth partneriaid gorfodi'r gyfraith o droseddau bwyd ac ar arwain yr ymdrech i ddeall sut y mae pobl yn cyflawni troseddau o'r fath, beth sy'n eu cymell i wneud hynny, a lle mae cyfleoedd iddynt wneud hynny. Ar y cyd ag Uned Troseddau a Digwyddiadau Bwyd yr Alban, cyhoeddodd yr Uned asesiad strategol blynyddol cyntaf y byd o fygythiad troseddau bwyd yn 2016. Mae allbwn strategol yr Uned wedi cael ei groesawu yn y DU ac yn rhyngwladol.


Ar hyn o bryd, mae 17.8 gweithiwr cyfwerth ag amser llawn yn gweithio yn yr Uned. Rhagwelir y bydd cost net ei gweithrediadau yn 2017/18 ychydig dros £1 miliwn. Erbyn diwedd mis Mawrth 2018, bydd £2.45 miliwn wedi'i fuddsoddi yn yr Uned yn ystod y tair blynedd ers ei sefydlu.

## ENW DA AC YMDDIRIEDAETH Y CYHOEDD


Rydym wedi cynnal arolygon tracio safbwyntiau'r cyhoedd ers 2001 i fonitro newidiadau o ran agwedd y cyhoedd tuag at yr ASB a materion sy'n ymwneud â bwyd. Ar ôl adolygiad yn 2010, aethpwyd ati i ailddatblygu'r arolwg a'i gynnal bob dwy flynedd. Mae'r cylch cyfredol yn cynnwys 16 cwestiwn newydd. Mae'r cwestiynau'n trafod sawl testun sydd o ddiddordeb i'r ASB, gan gynnwys: pryder am faterion diogelwch bwyd, ymwybyddiaeth o safonau hylendid bwyd, ymwybyddiaeth o'r ASB a'i chyfrifoldebau, ymddiriedaeth yn yr ASB a'r diwydiant bwyd, a hyder mewn labeli bwyd.

Mae canlyniadau cylch mis Tachwedd 2017<sup>4</sup> yn dangos yr hyn a ganlyn o ran ymwybyddiaeth, ymddiriedaeth ac enw da.

### Ymwybyddiaeth o'r ASB



### Ymddiried yn yr ASB i wneud ei gwaith



### Ymddiried yn yr ASB a'r drefn rheoleiddio bwyd ehangach

O blith y rheiny sy'n ymwybodol o'r ASB, mae 75% yn ymddiried ynddi i ddweud y gwir a 70% yn ymddiried ynddi i wneud ei gwaith. Ar lefel ehangach, mae 75% yn ffyddiog bod bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label a'i fod wedi'i labelu'n gywir, ac mae 63% yn ffyddiog bod y diwydiant yn cael ei reoleiddio'n deg.




Mae'r ASB yn tracio ei henw da i fonitro barn y cyhoedd am yr ASB, eu canfyddiad ohoni a'i hymgylltiad â'r cyhoedd. Dangosir y sgoriau diweddaraf yn y graff isod.

4 <https://www.food.gov.uk/cy/news-alerts/news/cyhoeddi-canlyniadau-arolwg-tracio-safbwyntiaur-cyhoedd-tachwedd-2017>



Enw da ymhlith y cyhoedd yn y DU



## GWYDDONIAETH A THYSTIOLAETH




Mae gwyddoniaeth, tystiolaeth a gwybodaeth yn parhau i osod sail ar gyfer ein holl waith, gan sicrhau ein bod yn targedu'r materion iawn yn y ffyrdd mwyaf effeithiol, a bod modd i ni werthuso effaith yr hyn yr ydym yn ei wneud. Ceir enghreifftiau o hyn drwy'r adroddiad i gyd, o'n helpu i dargedu Campylobacter a thracio'r cynnydd a wnaed, i ddangos effaith y CSHB ar fusnesau, ymddygiad defnyddwyr a salwch a gludir gan fwyd.

Ar lefel strategol, rydym wedi newid ffocws ein buddsoddiadau mewn gwyddoniaeth i greu mwy o eglurder a gwell strwythur ac i lywio penderfyniadau ar gyllid a blaenoriaethau. Mae ein gwyddoniaeth yn digwydd mewn tri maes: ein gwaith craidd i gynnal ein sylfaen dystiolaeth, ein gallu a'n hanghenion statudol; ein buddsoddiad mewn gwyddoniaeth i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau cyfredol ac i baratoi, esblygu a gwella; a'n gwaith strategol gyda golwg ar y dyfodol sy'n defnyddio gwyddoniaeth i ragweld darganfyddiadau, i feithrin partneriaethau ac i gynnal treialon.

Isod, dangosir ein gwariant ar wyddoniaeth a'r duedd o ran buddsoddi ers 2012/13.

Y gwariant ar wyddoniaeth a'r buddsoddiad ynddi



Ym mis Rhagfyr 2017, bu i ni adolygu ein gwariant ar wyddoniaeth a'n blaenoriaethau ar gyfer gwyddoniaeth yn y dyfodol, a bu i ni ailddatgan ein hymrwymiad i ddefnyddio gwyddoniaeth a thystiolaeth ym mhob rhan o'n gwaith. Cytunwyd ar drywydd ein gwaith gwyddoniaeth, a bydd hyn yn sicrhau ein bod yn parhau i allu adnabod a chyflawni gwyddoniaeth o'r ansawdd a'r maint sydd ei hangen i wireddu ein hamcanion. Ym mis Ebrill 2017, bu i ni sefydlu Cyngor Gwyddoniaeth newydd i roi cyngor annibynnol lefel uchel i ni ar sut i ddefnyddio gwyddoniaeth i gyflawni ein blaenoriaethau strategol cyfredol, i ddeall datblygiadau newydd – risgiau a chyfleoedd – ac i bennu a datblygu ffyrdd newydd o wneud pethau'n well yn y dyfodol. Ym mis Ebrill 2018, bu i ni sefydlu Pwyllgor Cyngori newydd ar y Gwyddorau Cymdeithasol i roi cyngor strategol arbenigol i'r ASB ar ein defnydd o'r gwyddorau cymdeithasol. Bu i ni fuddsoddi mewn gwyddoniaeth strategol a'n cymrodoriaethau strategol cyntaf mewn gwyddor data ym mhrifysgol UCL ac mewn cymhwyso genomeg i ddiogelwch bwyd yn Sefydliad Quadram. Mae ein cynlluniau peilot o ran synwryddion, y rhyngwryd pethau, a 'Blockchain' hefyd wedi sicrhau bod modd i ni fanteisio ar ddatblygiadau arloesol a buddsoddiad ehangach yn y meysydd hyn.

Rydym wedi cwblhau adolygiadau annibynnol o'n hasesiad risg ac o'r gwyddorau cymdeithasol. Bydd y rhain yn gosod sylfaen gadarn er mwyn i ni gynllunio a datblygu ein dull o fynd i'r afael â'r meysydd gwyddonol pwysig hyn. Roedd yr adolygiad systematig o ymwrthedd gwrthficrobaidd yn hollbwysig er mwyn i ni gael darlun clir a meithrin consensws ynghylch y bylchau, gan ein helpu ni i flaenoriaethu ein gwaith o gadw gwylidwriaeth ar ymwrthedd gwrthficrobaidd wrth weithio ochr yn ochr ag eraill yn y DU ac yn rhyngwladol.

## Ymwrthedd gwrthficrobaidd

Rydym yn cyfrannu at gyflawni'r strategaeth a'r adroddiadau cynnydd, ochr yn ochr ag adrannau eraill gan gynnwys yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Public Health England, DEFRA a'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol. Rôl yr ASB wrth iddi gydweithio ag adrannau eraill y Llywodraeth yw cyfrannu at leihau'r risg sydd ynghlwm wrth ymwrthedd gwrthficrobaidd, gan wella'r sylfaen dystiolaeth o ran ymwrthedd gwrthficrobaidd a'r gadwyn fwyd, er enghraifft monitro lefelau'r ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn bwyd a mynd ati yn well i ddeall effaith ymyriadau i fynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd yn y maes prosesu bwyd. Nod y strategaeth yw arafu datblygiad a lledaeniad ymwrthedd gwrthficrobaidd, gan ganolbwyntio ym mhob sector ar:

- wella gwybodaeth am ymwrthedd gwrthficrobaidd a dealltwriaeth ohono
- gwarchod effeithiolrwydd triniaethau presennol
- hybu datblygiad gwrthfictigau newydd, diagnosteg a therapiau newydd

Isod, dangosir y cynnydd a wnaed gennym yn 2017/18 i fynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd:

Blaenoriaeth	Cynnydd
Gwella'r sylfaen dystiolaeth wyddonol sy'n ymwneud ag ymwrthedd gwrthficrobaidd yn y gadwyn fwyd	<ul style="list-style-type: none"> <li>● Cyhoeddi adolygiad systematig y Coleg Milfeddygol Brenhinol (Tachwedd 2017).</li> <li>● Arolwg manwerthu newydd o facteria ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn briwgig porc a chyw iâr a fanwerthir (dechreuodd ym mis Medi 2017).</li> <li>● Cyfrannu at brosiect yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar E.coli beta-lactamases sbectrwm estynedig (ESBL) mewn cynnyrch ffres (cyhoeddwyd y papur ym mis Ionawr 2017).</li> <li>● Adeiladu ar ymchwil bresennol yr ASB i lenwi bwlch tystiolaeth o ran priodoli <i>Campylobacter</i> ymwrthedd gwrthficrobaidd.</li> <li>● Cyd-ariannu cymrodoriaeth ymchwil bum mlynedd yn Sefydliad Quadram, Norwich ynghylch bacteria ymwrthedd gwrthficrobaidd yn y gadwyn fwyd (o fis Hydref 2017).</li> </ul>
Mynd ati i hybu camau i fabwysiadu safonau adrodd tryloyw a chilir	<ul style="list-style-type: none"> <li>● Cyfarfod â manwerthwyr i drafod gwaith yr ASB i gadw gwyladwriaeth ar ymwrthedd gwrthficrobaidd (Mawrth 2017).</li> <li>● Cymryd rhan yn Fforwm Arloesi N8 y Diwydiant Bwyd-Amaeth a noddwyd gan Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr a'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (Mai 2017).</li> <li>● Trafod â manwerthwyr, gan gynnwys cymryd rhan yng nghynhadledd ymchwil a datblygu Sainsbury's (Mai 2017) a chyfarfod sgysiau a rennir Tesco (Gorffennaf 2017).</li> <li>● Adroddiad targedau'r Gynghrair Defnydd Cyfrifol o Feddyginiaethau mewn Amaethyddiaeth 2017 (fe'i cyhoeddwyd ym mis Hydref 2017).</li> <li>● Cyhoeddi data am ddefnydd y diwydiant o gyffuriau gwrthficrobaidd am y tro cyntaf ar sail wirfoddol yn Adroddiad Cadw Gwyladwriaeth ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd Milfeddygol a Gwerthiant 2016</li> <li>● Adroddiad Cadw Gwyladwriaeth ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd Milfeddygol a Gwerthiant (Tachwedd 2017).</li> </ul>
Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i'n cynghori ar ddefnyddio gwrthfictigau'n gyfrifol mewn amaethyddiaeth i gefnogi'r gwaith uchod	<ul style="list-style-type: none"> <li>● Fe'i sefydlwyd ym mis Mawrth 2017 – mae'r grŵp wedi cael tystiolaeth gan y sectorau dofednod, moch, gwartheg a defaid. Cyflwynwyd papur i'r Pwyllgor Cynghori ar Ddiogelwch Microbiolegol Bwyd ym mis Ionawr 2018.</li> </ul>
Ymgysylltu'n rhyngwladol i helpu i wynebu her fyd-eang ymwrthedd gwrthficrobaidd	<ul style="list-style-type: none"> <li>● Arweinydd y DU yn Codex lle'r ydym ni, Awstralia a'r Unol Daleithiau wedi cynnull cyfarfod i bennu amcanion Tasglu Codex ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn Korea ym mis Tachwedd 2017.</li> <li>● Cyfrannu at gadw gwyladwriaeth ar draws yr UE ar facteria ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn cigoedd a fanwerthir.</li> </ul>

## Bwyd a Chi

Bwyd a Chi yw prif arolwg defnyddwyr yr ASB. Mae'n casglu gwybodaeth gan y cyhoedd am ymddygiadau, agweddau a gwybodaeth o ran materion bwyd a diogelwch bwyd, fel storio a pharatoi bwyd, bwyta allan, gwybodaeth am alergedd a'r bwyd a fwyteir.


Roedd cylch 5 yr arolwg yn cynnwys cyfres o gwestiynau ynghylch ymddiriedaeth: mewn bwyd, yn y system fwyd ac yn yr ASB. Mae canlyniadau'r arolwg yn helpu i ategu polisiau'r ASB ac yn ehangu'r sylfaen dystiolaeth i gyflawni cynlluniau strategol, blaenoriaethau a thargedau'r ASB. Comisiynodd yr ASB gyfres o bapurau dadansoddi eilaidd i bwysu a mesur meysydd polisi pwysig sydd o ddiddordeb mewn perthynas â blaenoriaethau'r ASB o ran polisiau, gwyddoniaeth ac ymgysylltu â defnyddwyr.

### Dadansoddiad eilaidd o gylchoedd 1-4

Roedd y papur cyntaf a luniwyd yn 2017/18 yn ymwneud â phroffilio pobl â gorsensitifrwydd i fwydydd. Canfu'r papur nad yw pobl sy'n dweud bod ganddynt alergedd bwyd yn wahanol iawn i'r rheiny nad ydynt, o ran nodweddion nac o ran arferion diogelwch bwyd yn y cartref a thu allan. Er nad oedd y canfyddiadau'n arwyddocaol, mae'r papur wedi caniatáu i ni ddatblygu'r maes hwn i osod sylfaen ar gyfer polisiau.

Roedd yr ail bapur yn gosod sylfaen ar gyfer datblygu'r cynllun Calorie Wise a thargedu'r negeseuon cysylltiedig at ddefnyddwyr Gogledd Iwerddon. Un o brif canfyddiadau'r papur oedd nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod beth yw'r gofynion dyddiol o ran egni, felly gwnaed argymhellion a oedd yn sail i'r cynllun yng ngoleuni'r canfyddiad hwn.

### Gwybodaeth am lefelau'r calorïau a argymhellir



Sail: Ymatebwyr yng Ngogledd Iwerddon

Comisiynwyd trydydd papur y gyfres gan Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru. Roedd yn pwysu a mesur arferion diogelwch bwyd a diogelu'r cyflenwad bwyd yng Nghymru. Canfu'r dadansoddiad fod lefelau Cymru'n debyg iawn i lefelau Lloegr a Gogledd Iwerddon o ran anniogelwch y cyflenwad bwyd, ac nad yw ymddygiad diogelwch bwyd yng Nghymru'n amrywio'n sylweddol yn ôl pa mor ddiogel yw'r cyflenwad bwyd.


Roedd papur olaf y gyfres yn canolbwyntio ar ddiogelu'r cyflenwad bwyd a bwyta'n iach yng Ngogledd Iwerddon ac roedd o ddiddordeb i Rwydwaith Tlodi Bwyd yr Ynys Gyfan. Yn gyffredinol, roedd pobl mewn cartrefi lle'r oedd y cyflenwad bwyd yn llai diogel yn gwybod llai am fwyta'n iach na'r rheiny mewn cartrefi lle'r oedd y cyflenwad bwyd yn weddol ddiogel neu'n ddiogel iawn, ac roeddent yn fwy tebygol o ddweud bod arian a phris bwydydd iach yn eu rhwystro rhag bwyta'n iachach o'u cymharu â'r rheiny mewn cartrefi lle'r oedd y cyflenwad yn fwy diogel.

## Data agored

Data y gall pawb gael mynediad atynt, eu defnyddio a'u rhannu yw data agored. Un o'n hamcanion yw bod yn sefydliad sy'n cael ei lywio gan ddata a bod ein data 'yn agored yn bennaf'. Mae catalog data agored yr ASB ar gael yn <https://data.food.gov.uk/catalog>


Mae'r siartiau isod yn dangos y cynnydd a wnaed i gyflawni ein nod o fod yn 'agored yn bennaf'.

### Cynnydd o ran cyhoeddi data: 286 o setiau data wedi'u pennu




**Targed:** Cyhoeddi cynifer o setiau data â phosibl, gan gyfrif am ddata na ellir eu cyhoeddi am resymau masnachol, diogelwch, diogelu data neu resymau eraill

### Sgoriau bod yn agored: 1,871 o ffeiliau wedi'u cyhoeddi



Rhoddir sgôr sêr syml sy'n seiliedig ar y system 'Pum Seren Bod yn Agored' a luniwyd gan Tim Berners Lee. Mae'r meini prawf yn seiliedig ar fformat y ffeil a gyhoeddir. Ein targed yw tair seren.

### Ymweliadau ar-lein:




## AROLWG POBL




Cynhaliwyd Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil ym mis Hydref 2017. Cododd sgôr ymgysylltu staff yr ASB o 58% yn 2016 i 60% yn 2017, sef yr un sgôr â'n sgôr uchaf erioed. Mae'r sgoriau wedi cynyddu mewn saith o'r naw prif gategori. Yr eithriadau yw 'Fy nhîm' (-1%) a 'Taliadau a buddion' (-2%). Cafwyd y cynnydd mwyaf ar gyfer 'Fy rheolwr' ac 'Arweinyddiaeth a rheoli newid' (+7% ar gyfer y ddau). Ar draws yr holiadur, mae sgoriau 77% o'r cwestiynau wedi gwella ers 2016.

Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2009-2017



Ymgysylltu â'r Arolwg Pobl



Y tri phrif gwestiwn sy'n annog staff i ymgysylltu, sef y themâu hynny lle mae'r berthynas â'n sgoriau ymgysylltu ar ei chryfaf, yw 'Arweinyddiaeth a rheoli newid', 'Fy ngwaith' a 'Fy rheolwr'. Rydym wedi canolbwyntio ar wella yn y meysydd hyn drwy raglenni mewnol (Ein Ffordd o Weithio, Strategaeth Pobl, ymgysylltu â staff), ac mae'r gwelliannau mwyaf i'w gweld o dan y themâu hyn.

Rydym wedi llunio cynllun gweithredu corfforaethol ar gyfer yr Arolwg Pobl i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr arolwg. Mae'r cynllun gweithredu'n canolbwyntio ar bedair prif thema:

- tâl a buddion
- rheoli newid
- bwlio ac aflonyddu/teimlo'n ddigon diogel i herio
- arweinyddiaeth



## CYFLAWNI DRWY FEITHRIN GALLU



Er mwyn i ni gyflawni'r blaenoriaethau uchod, a thrwy hynny, gyflawni'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr, mae angen i'r ASB fuddsoddi i feithrin ac i ddatblygu ei gallu. Rydym wedi gwneud hyn drwy ganolbwyntio ar y pum maes allweddol a nodir isod.



### Ein ffordd o weithio

**Amcan cyffredinol:** Creu sefydliad bywiog a blaengar sy'n dysgu ac yn denu a chadw'r staff gorau sy'n ymgysylltu, yn barod i gyflawni, yn cydweithio ac yn cael eu harwain yn dda.

#### Amcanion 2017/18:

- symud o Aviation House i swyddfeydd newydd addas
- bod yn sefydliad sy'n hyblyg o ran lleoliad lle mae pobl yn cydweithio mewn timau effeithiol iawn ni waeth ble y maent wedi'u lleoli
- rhoi contractau newydd i'r holl staff, a rhoi'r seilwaith cywir ar waith i'w helpu i weithio o unrhyw leoliad
- cyflwyno prosesau busnes, offerynnau rheoli a sgiliau newydd i helpu'r staff i fod mor gynhyrchiol â phosibl a sicrhau'r budd mwyaf i'r sefydliad yn yr amgylchedd gweithio newydd

#### Crynodeb o'r hyn a gyflawnwyd:

Mae'r ASB wedi cymryd camau breision i roi ei rhaglen Ein Ffodd o Weithio ar waith yn 2017/18. Yn Lloegr, mae'r swyddfeydd wedi newid yn sylweddol, gyda swyddfa Caerefrog yn cael ei hadnewyddu'n llwyr a swyddfa Llundain yn symud yn esmwyth o Aviation House i Clive House. Cyflwynwyd contractau i alluogi staff yr ASB i weithio o leoliadau hyblyg. Rydym hefyd wedi llunio'r rhaglen newydd, Ein Ffordd o Gysylltu, ac mae'n cael ei rhoi ar waith i gefnogi dulliau gweithio hyblyg newydd gweithlu'r ASB.

#### Cyflawni:

- Cafodd ein swyddfa yng Nghaerefrog ei hadnewyddu'n llwyr, gan symleiddio a gwella'r gofod a ddefnyddir.
- Cafodd y Cynnig Pobl sy'n caniatáu i bobl weithio o leoliadau mwy hyblyg ei gyflwyno ar draws yr ASB. Mae pobl wedi cael cyfle i ddewis contractau gweithio o adref, o swyddfa neu o sawl lleoliad, gan ddibynnu ar yr anghenion busnes.
- Mae'r ASB wedi symud yn llwyddiannus o'i safle blaenorol yn Llundain, sef Aviation House, i'w swyddfa newydd yn Clive House.



## Strategaeth Pobl

### Amcan cyffredinol:

Adeiladu sefydliad effeithiol a chydnerth drwy greu model trefniadol a chynllun gweithlu sy'n ein galluogi i gyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol, gan barhau i gyflawni ein busnes craidd a pharhau i gydymffurfio â'n polisiau a'n hærferion pobl ar yr un pryd. Meithrin ein gallu i arwain ac i reoli ym mhob rhan o'r busnes i sicrhau bod gennym arweinwyr hyfedr a hyderus sy'n gallu ymgysylltu a grymuso ac y mae'r sefydliad a'u timau o bwys iddynt, gan gydnabod a gwerthfawrogi ymdrech unigolion a cheisio gwella perfformiad yn barhaus. Meithrin y sgiliau a'r gallu i ddarparu'r sgiliau proffesiynol a thechnegol y pennwyd eu bod yn allweddol i gyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol a darparu'r seilwaith a'r cymorth sy'n galluogi pobl i ddatblygu eu gyrfa yn yr ASB.

### Amcanion 2017/18:

- Creu amgylchedd lle gallwn feithrin diwylliant perfformiad uchel lle mae atebion arloesol a chydweithredol yn cael eu rhoi ar waith o ran y ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau.
- Cael arweinwyr a rheolwyr creadwyr, dilys a gofalgwr y gellir ymddiried ynddynt.
- Sicrhau bod pawb yn ymdrechu i berfformio'n wych.
- Bod yn gynhwysol o hyd, gan barchu'r gwahaniaethau rhwng unigolion.
- Cynorthwyo pobl i ddatblygu a'u hannog i wireddu eu potensial.

### Crynodeb o'r hyn a gyflawnwyd:

Yn 2017/18, rydym wedi mynd ati i sicrhau bod y strategaeth pobl yn rhoi'r bobl iawn yn y lle iawn a bod y drefn o recriwtio a datblygu staff yn edrych i'r dyfodol ac yn addas at y diben. Rydym wedi sicrhau bod y camau sy'n cael eu cymryd o fewn y strategaeth pobl yn ystyried y meysydd hynny a bennwyd yng nghynllun gweithredu'r arolwg pobl, ac yn mynd i'r afael â nhw. Mae'r camau i ddatblygu'r fframwaith rheoli perfformiad newydd yn darlunio hyn.

### Cyflawni:

- Yn 2017/18, rydym wedi cymryd camau sylweddol o ran ein Strategaeth Pobl drwy gytuno ar y weledigaeth ar gyfer y dyfodol a'r gwerthoedd lefel uchel a fydd yn ei chefnogi.
- I gefnogi'r weledigaeth honno, rydym wedi cytuno ar fframwaith rheoli perfformiad newydd a fydd yn cael ei ddefnyddio am y tro cyntaf i adolygu perfformiad y staff yn 2017/18. Cafodd y fframwaith hwn ei lunio, ac fe'i rhoddir ar waith, yn unol â chynlluniau gweithredu corfforaethol yr Arolwg Pobl.
- Cytunwyd ar y camau i'w cymryd o ran sgiliau allweddol, olyniaeth a thalent ac, ar y sail honno, lluniwyd strategaeth adnoddau i sicrhau bod gan yr ASB y bobl iawn yn y lle iawn i gyflawni ei strategaeth gorfforaethol. Bydd hyn yn cynnwys cael y bobl iawn yn eu lle i gyflawni unrhyw feysydd gwaith newydd neu feysydd gwaith diwygiedig yn sgil ymadael â'r UE neu'r newid i'n system reoleiddio.



## Evolve IT

### Amcan cyffredinol 2017/18:

Rhoi Strategaeth TG yr ASB ar waith. Canolbwyntio ar ddod â'r rheolaeth gyffredinol dros ddylunio a darparu gwasanaethau TG yn ôl i mewn i'r ASB a manteisio ar wasanaethau a datrysiadau TG modern, safonol a chyffredin, gyda chyn lleied â phosibl o ddatrysiadau pwrpasol. Ymhellach, bydd yr holl ddatrysiadau TG yn cael eu darparu i ddiwallu anghenion defnyddwyr ac anghenion busnes, lle mae data'n cael eu gwerthfawrogi a'u defnyddio i gefnogi gweithgareddau busnes.

### Amcanion 2017/18:

- Cefnu ar y gwasanaeth a reolir gan Capita a chyflwyno model gweithredu Evolve IT yn ei le. Bydd yn seiliedig ar gymysgedd o wasanaethau mewnol a darpariaeth cyflenwyr trydydd parti.
- Dod â rheolaeth lwyr dros TG yn ôl i mewn i'r ASB.
- Ymadael yn ddiogel â contract Capita a'r contractau etifeddol cysylltiedig, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau.

### Crynodeb o'r hyn a gyflawnwyd:

Mae'r ASB wedi cefnu'n llwyddiannus ar gontract Capita, gan ddyfarnu nifer o gontractau llai i gyflenwyr trydydd parti newydd er mwyn darparu gwasanaethau TG arbenigol. Mae'r rheolaeth gyffredinol dros TG wedi dychwelyd i'r ASB ei hun, gyda thimau Pensaerniaeth, Rheoli Gwasanaeth a Masnachol newydd yn gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau TG o safon yn dal i gael eu darparu. Drwy gydol y broses o ddatblygu'r rhaglen Evolve IT, rydym wedi sicrhau bod gan yr ASB y gallu a'r capasiti i barhau i ddarparu gwasanaeth.

### Cyflawni:

- Mae'r ASB wedi ymadael â'r contract gwasanaeth a reolwyd gan Capita.
- Cyflwynwyd desg wasanaeth i ddarparu cymorth rheng flaen 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos i holl staff yr ASB.
- Mae holl swyddfeydd yr ASB wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith ac mae pob safle gweithredwr busnes bwyd wedi trosglwyddo i'r darparwr rhwydwaith ardal eang (WAN) newydd, gyda'r llinellau'n cael eu huwchraddio gan mwyaf.
- Cafodd pob dyfais defnyddiwr ei hadnewyddu i ddarparu gliniaduron/llechi modern sy'n gweithredu ar Windows 10 ac yn darparu mynediad at Office 365.
- Mae'r rhan fwyaf o weithwyr yr ASB wedi cael dyfais symudol newydd i'w cynorthwyo i weithio'n hyblyg ac yn symudol.
- Cafodd contract cymorth cymwysiadau pwrpasol ei ddyfarnu i sicrhau bod modd cynnal a datblygu cymwysiadau etifeddol yr ASB.
- Cafodd pob gweinydd o'r Capita Datacentre a'r rhan fwyaf o'r gweinyddion yn swyddfa Caerefrog eu mudo i'r Azure Cloud Datacentre newydd.
- Mae'r gwasanaethau teleffoni llais dros IP ac argraffu wedi mudo i'r modelau gwasanaeth cwmwl newydd.



## Data a digidol

**Amcan cyffredinol:** Cael diwylliant data effeithiol: mae data'n cefnogi polisiau a phenderfyniadau gweithredol yr ASB ac rydym yn bodloni ein hymrwymiaidau o ran tryloywder. Sicrhau bod ein gwasanaethau digidol yn diwallu anghenion ein defnyddwyr.

### Amcanion 2017/18:

- Cael ein cydnabod ar draws y llywodraeth fel ffynhonnell ddata y gellir ymddiried ynddi: bydd yr holl ddata a gesglir yn addas at y diben, yn cael eu rheoli'n dda ac yn cael eu defnyddio'n briodol yn fewnol a thu hwnt.
- Bodloni'r ymrwymiaidau tryloywder ym mhob maes, gyda pherchnogion asedau gwybodaeth yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros gyhoeddi setiau data.
- Llunio strategaeth ddata.
- Llunio'r setiau data sydd eu hangen i yrru gwasanaethau digidol, gwefannau a phlatfformau newydd yr ASB.
- Trawsnewid ein gwasanaethau digidol i sicrhau ein bod yn arloeswr blaenllaw o ran bwyd ac o ran y llywodraeth.

### Crynodeb o'r hyn a gyflawnwyd:

Yn 2017/18, rydym wedi ymgynghori ar ein strategaeth ddata, a'i chyhoeddi. Mae'r sefydliad yn dechrau ystyried data fel adnoddau i'w defnyddio i gefnogi prosesau penderfynu'r sefydliad.

Mae gwaith datblygu sylweddol wedi mynd rhagddo i greu'r wefan newydd – gyda thri gwasanaeth gwe newydd yn cael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a mwy i ddod gan ein bod wedi sefydlu model cyflawni erbyn hyn.

### Cyflawni:

- Rhoi'r strategaeth ddata ar waith, strategaeth y mae sefydliadau allanol wedi cyfeirio ati fel esiampl o arfer gorau.
- Parhau i gyhoeddi data agored, gan gyhoeddi setiau data newydd a mynych fel mater o drefn.
- Os oes gofyn i dimau gyhoeddi data, cafodd proses ei llunio i sicrhau mai dim ond rôl lywodraethu a goruchwyllo y mae'r tîm data canolog yn ei chwarae a bod perchnogion yr wybodaeth yn cyhoeddi'r data eu hunain.
- Datblygu a defnyddio platfform mewnol newydd (Digital Workplace) ar gyfer gweithwyr yr ASB ar ffurf beta.
- Cafodd tri o'r gwasanaethau gwe sy'n flaenoriaeth eu cyflwyno ar ffurf beta byw.
- Mae'r gwaith a wnaed drwy gydol y flwyddyn ar dechnoleg ac offerynnau'n caniatáu i'r gweithlu fod yn hyblyg o ran lleoliad, gan sicrhau bod modd iddynt gydweithio â'i gilydd.
- Gwnaed asesiad o allu digidol staff yr ASB i lywio ac i ddatblygu amcanion allweddol ar gyfer gwelliannau data a digidol yn y dyfodol.



## Cadw gwyliadwriaeth

### Amcan cyffredinol:

Datblygu dull strategol newydd o gadw gwyliadwriaeth ar fwyd a bwyd anifeiliaid sy'n bodloni diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o gasglu, coladu, dadansoddi a/neu ddehongli data'n systematig, ac yn rhannu gwybodaeth er mwyn cymryd camau dan gyfarwyddyd.

### Amcanion 2017/18:

- Adolygu'r gwersi a ddysgwyd a chwblhau dyluniad cysyniadol y dull cadw gwyliadwriaeth newydd i sefydlu dull strategol sy'n defnyddio data a gwyddor data'n well i bwysu a mesur a datblygu dangosyddion risg rhagfynegol.
- Ehangu gwaith cyswllt yr ASB a'i heffaith ar sefydliadau allanol sy'n gweithio ym maes cadw gwyliadwriaeth strategol.
- Cael model prototeip cychwynnol ar gyfer cadw gwyliadwriaeth sy'n gallu cynhyrchu'n systematig wybodaeth y gellir ei rhoi ar waith i siapiau ac i lywio ymyriadau rheoli risg gennym ni a'n rhanddeiliaid.

### Crynodeb o'r hyn a gyflawnwyd:

O ran yr ASB, mae'r gwaith cadw gwyliadwriaeth yn ymwneud â chasglu ystod eang o ddata sy'n rhoi gwybodaeth i ni am y system fwyd. Gallwn ni, ac eraill, gan gynnwys y diwydiant bwyd a bwyd anifeiliaid, gorfodwyr a defnyddwyr, ddefnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddysgu ohonynt i reoli risgiau ac i achub ar gyfleoedd.

Mae'r dull cadw gwyliadwriaeth newydd yn defnyddio model lefel uchel sy'n cynnwys camau allweddol, sef 'sganio', 'canfod', 'culhau' a 'gwerthuso', ar ffurf cylch adborth. Gellir rhannu'r wybodaeth a gynhyrchir yn ystod y gwahanol gamau â rhanddeiliaid mewnol ac allanol a bydd yn darparu dangosyddion y gall rhanddeiliaid eu defnyddio i ystyried pa ymyriadau i'w rhoi ar waith, os o gwbl.

### Cyflawni:

Mae'r rhaglen cadw gwyliadwriaeth wedi:

- Datblygu dealltwriaeth glir o ystyr cadw gwyliadwriaeth.
- Datblygu model gweithredu lefel uchel.
- Creu bwrdd rhaglen canolog i lywio'r gweithgareddau yr ymgwymerir â nhw.
- Creu rhwydwaith mewnol ac allanol i adolygu gweithgareddau cadw gwyliadwriaeth strategol a rhoi cyngor arnynt.
- Sefydlu cysylltiadau uniongyrchol â deiliaid data allanol i gael mynediad at arbenigwyr pwnc ac o bosibl at ddata nad ydynt ym meddiant yr ASB.
- Pwysu a mesur cyfleoedd i ddefnyddio arferion gorau o ran cadw gwyliadwriaeth drwy gomisiynu astudiaethau peilot cadw gwyliadwriaeth gyda phum contractwr allanol a ddewiswyd oherwydd eu bod yn arbenigo ym maes cadw gwyliadwriaeth a phennu risgiau sy'n dod i'r amlwg.
- Cwblhau dwy fenter profi cysyniadau ochr yn ochr â'i gilydd i ddatblygu ac i brofi'r dull cadw gwyliadwriaeth i ddatblygu ac i ddarparu gwybodaeth am risg sy'n seiliedig ar ddata mewn cyfnod byr, gan ddod ag arbenigwyr pwnc, gwyddonwyr data mewnol ac allanol, arbenigwyr o adrannau eraill y llywodraeth, canolfannau ymchwil, darparwyr data a'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd ynghyd.

- Creu cynllun gweithredu i ddatblygu ac i weithredu'r gallu strategol i gadw gwylidwriaeth, gan gynnwys dull y gellir ei ailadrodd o bennu a blaenoriaethu'r meysydd risg i'w harchwilio.
- Dechrau defnyddio'r model cadw gwylidwriaeth mewn dau faes sy'n gysylltiedig â diogelwch bwyd ac ymadael â'r UE.

## Y PRIF RISGIAU AC ELFENNAU ANSICR

Rydym yn amlinellu ein dull o reoli risg fel rhan o Ddatganiad Llywodraethu'r ASB 2017/18 ar dudalen 63. Ar y dudalen hon, rydym yn canolbwyntio ar dair prif risg sy'n gysylltiedig â'n tair blaenoriaeth gorfforaethol.

Mae risgiau yn yr ASB yn cael **eu pennu, eu hasesu, eu rheoli, eu hadolygu a'u cofnodi** ar y lefel briodol ar draws yr ASB. Mae'r drefn hon yn cael ei llywodraethu:

- bob mis drwy adroddiadau am eithriadau
- bob chwarter drwy adolygiad/her i sicrhau bod y risgiau cywir yn cael eu blaenoriaethu
- bob blwyddyn fel rhan o'r broses gorfforaethol cynllunio busnes


Defnyddir **cofrestri risg** i gofnodi ein risgiau, i'n helpu i'w hasesu, i flaenoriaethu'r camau i'w cymryd, ac i fonitro'r cynnydd a wnaed.

**I ddarparu 'bwyd y gallwn ymddiried ynddo' ar adeg pan fo adnoddau'n lleihau ac ansicrwydd allanol, mae'n anochel ein bod yn barod i gymryd risgiau ystyriol, i fanteisio ar gyfleoedd ac i arloesi.**

**Gall ein hagwedd at arloesi neu ddiogelu amrywio gan ddibynnu ar natur y risg, felly rydym yn paru'r risgiau â themâu ac yn datgan i ba raddau yr ydym yn barod i wynebu risg wrth ymateb.**



Mae risgiau'r ASB yn cael eu pennu a'u categorio fel hyn:



I gefnogi gwaith dadansoddi, trin a monitro priodol, rydym yn defnyddio cofrestrî risg (nifer ohonynt yn rhai gorfodol) fel rhan o'n dulliau rheoli. Lle bo'n briodol, defnyddir cofrestrî risg i gofnodi bod risg yn cael ei huwchgyfeirio neu'i hisgyfeirio, ei throsglwyddo neu ei chyfuno, i sicrhau ei bod yn cael ei rheoli ar y lefel fwyaf priodol yn yr ASB a chan y rheiny sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu sut i fynd i'r afael â hi.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd y risgiau ar gofrestrî risg gorfforaethol yr ASB yn canolbwyntio ar ein tair blaenoriaeth strategol ac roeddent yn cynnwys:

- y risg na fyddem yn ymateb yn ddigonol i ddigwyddiad bwyd
- y risg na fyddem yn cyflwyno model rheoleiddio newydd i sicrhau bod gennym 'fwyd y gallwn ymddiried ynddo' o ran diogelwch a dilysrwydd bwyd mewn system fwyd fyd-eang gynaliadwy a modern
- y risg na fyddem yn ymgysylltu'n llwyr ac yn ddigonol yn y paratodau i'r DU ymadael â'r UE a llunio trefniadau masnach â'r UE a thrydydd gwledydd

### **Adroddiad Pwyllgor Dethol ar 2 Sisters a safonau prosesu dofednod**

Ar 26 Medi 2017, cafodd yr ASB wybod am ymchwiliad gan y cyfryngau a oedd yn honni bod problemau hylendid bwyd, ac y gallai fod twyll yn digwydd, yn ffatri dorri 2 Sisters Food Group (2SFG) a gymeradwywyd gan yr ASB. Roedd yr honiadau'n canolbwyntio ar arferion hylendid bwyd ac ar ailbecynnu, labelu a'r gallu i olrhain cynhyrchion dofednod a oedd yn cael eu cyflenwi i sawl manwerthwr mawr. Cynhaliodd y Pwyllgor Dethol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ymchwiliad byr i ffatri 2 Sisters yn West Bromwich ym mis Hydref 2017. Ar ôl yr ymchwiliad, cyhoeddodd ei ganfyddiadau mewn adroddiad ar 17 Tachwedd 2017. Roedd yn cynnwys nifer o argymhellion.

Fel rhan o'r gwaith craffu cyhoeddus, gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariadau bob tri mis i gychwyn, ac yna bob chwe mis, ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, a gofynnodd i'r ASB gydgyssylltu'r ymatebion gan eraill a oedd yn gyfrifol am weithredu yn sgil canfyddiadau'r Pwyllgor. Mae'r diweddariadau hyn yn rhoi sicrwydd ysgrifenedig bod yr ymrwymadau a wnaed gan 2SFG, asiantaethau achredu'r Tractor Coch a Chonsortium Manwerthu Prydain, Cyngor Bwrdeistref Fetropolitanidd Sandwell a'r ASB ei hun yn cael eu rhoi ar waith yn llwyr.

Mae'r diweddariad diweddaraf a ddarparwyd gan yr ASB i'r Pwyllgor ar 16 Mai 2018 wedi'i gyhoeddi yn [www.publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmenvfru/1070/107004.htm](http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmenvfru/1070/107004.htm). Mae hyn yn ychwanegol at yr adroddiad llawn a'r ymatebion eraill a gyhoeddwyd yn: [www.publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmenvfru/861/86103.htm](http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmenvfru/861/86103.htm). O'r cychwyn cyntaf rydym wedi mynd ati i ymchwilio i'r honiadau mewn tri cham – ymchwilio yn gyntaf i'r problemau y cafwyd hyd iddynt ar Safle D cyn ymchwilio i'r rheiny a oedd yn codi'n fwy cyffredinol ar draws ffatrioedd torri dofednod 2SFG, ac yna ystyried y problemau hynny sy'n berthnasol i'r diwydiant ehangach. Yn sgil ein canfyddiadau yn 2SFG, a phroblemau yr ydym yn ymchwilio iddynt mewn ffatrioedd torri eraill, rydym ni a Safonau Bwyd yr Alban wedi lansio adolygiad ledled y DU o ffatrioedd torri a storfeydd oer.



Yn ystod y gwaith o fonitro'r prif risgiau uchod, pennwyd y camau gweithredu a ganlyn:

## Adolygiad o storfeydd oer a ffatrioedd torri

Yn 2017/2018, bu'r ASB yn ymdrin â dau ddigwyddiad mawr yn sector cig y DU a oedd yn gysylltiedig ag achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth mewn ffatrioedd torri a oedd yn cael eu rhedeg gan 2 Sisters Food Group a Russell Hume.

Yn sgil y digwyddiadau hyn ac i liniaru risgiau pellach o ran diffyg cydymffurfiaeth yn y sector cig, cyhoeddodd yr ASB (mewn partneriaeth â Safonau Bwyd yr Alban) ar 1 Chwefror 2018 y byddai'n cynnal adolygiad ledled y DU o storfeydd oer a ffatrioedd torri.

Mae'r adolygiad yn asesu sut y mae'r diwydiant cig yn gweithredu ar draws y gadwyn gyflenwi i sicrhau bod trywydd rheoleiddio'r dyfodol yn cyd-fynd â newidiadau yn y sector ac yn rhagweld y newidiadau hynny. Mae pob ffatri dorri a storfa oer yn rhan o gwmpas yr adolygiad, gan gynnwys y rheiny y mae'r awdurdodau lleol yn gyfrifol am gymryd camau gorfodi ynddynt. Bydd yr adolygiad yn ceisio cryfhau'r trefniadau i roi'r rheolaethau swyddogol ar waith a phennu unrhyw fesurau eraill a fydd yn helpu i adeiladu hyder defnyddwyr yn y broses o gynhyrchu cig. Mae is-grŵp o Dimau Gweithredol yr ASB/FSS yn rheoli'r adolygiad, gan roi diweddariadau rheolaidd i Gadeiryddion Byrddau'r ASB/FSS. Mae 'Grŵp Her' a benodwyd o bob rhan o'r sectorau cig, milfeddygaeth, archwilio a rheoleiddio yn craffu ar y gwaith yn allanol. Cyflwynir adroddiad ar yr adolygiad i Fyrddau'r ASB/FSS yn yr hydref 2018.

## Cyflawni o dan y drefn reoleiddio newydd

Hon yw'r ail flwyddyn adrodd lle mae'r rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol yn rheoli'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig ag adolygu ac ailfodelu'r modd y mae'r ASB a'r awdurdodau lleol yn rheoleiddio busnesau bwyd. Mae'r rhaglen yn cael ei chydgyssylltu'n agos â rhaglen yr ASB i ymadael â'r UE, ac rydym wedi ailflaenoriaethu gweithgareddau ac ailalinio cerrig milltir y rhaglen i ystyried effaith ymadael â'r UE.

Bydd yr awdurdodau lleol yn dal i chwarae rôl bwysig i gyflawni gwaith o dan y drefn reoleiddio newydd sy'n cael ei llunio. Rydym yn diweddarau ac yn gwella'r ffordd yr ydym yn goruchwyllo eu perfformiad. Ar hyn o bryd, rydym yn seilio hyn ar ffurflenni data blynyddol System Monitro Gwaith Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS). Rydym wedi llunio Cerdyn Sgorio Cytbwys digidol: offer yn sy'n gallu defnyddio data mewnol ac allanol ychwanegol i helpu i ddarparu darlun mwy cyflawn a chyfredol o'r perfformiad. Mae hefyd yn ei gwneud yn haws i ni ddelweddu'r data perfformiad ar sail genedlaethol.

Yn ogystal, i reoli'r risg o ddiffyg cydymffurfiaeth, bu i ni gysylltu â nifer o awdurdodau lleol ynghylch eu perfformiad ar sail data LAEMS 2016/17. Gwnaed hyn ochr yn ochr â nifer o archwiliadau sicrwydd a oedd yn para diwrnod ac a oedd yn cynnwys asesiad o faterion perfformiad.

## Paratoi i'r DU ymadael â'r UE

I liniaru'r risg sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE, fel y nodir uchod, mae'r ASB wedi blaenoriaethu rhai o'i hadnoddau i gefnogi'r Rhaglen Ymadael â'r UE. Rydym hefyd yn dal i gydweithio'n agos â'r Trysorlys ar gais i gael yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen yn 2018/19, yn ychwanegol at yr £14 miliwn ychwanegol a gymeradwywyd gan y Trysorlys ym mis Mawrth 2018. Bydd y cyfan yn cefnogi'r gwariant y mae'r ASB eisoes wedi ymrwymo iddo. I sicrhau ein bod yn barod, rydym hefyd yn parhau i lunio cynlluniau ymadael manwl.

# DADANSODDI'R PERFFORMIAD

## CAMAU GORFODI FFURFIOL (CYMRU, LLOEGR)

Yn unol â gofynion Deddf Safonau Bwyd 1999, rydym yn adrodd bob blwyddyn ar y camau gorfodi a gymerwyd. Gellir rhoi hysbysiadau statudol i fusnesau sy'n methu â bodloni'r gofynion o ran hylendid, oherwydd materion strwythurol anfoddfaol, i atal busnes rhag defnyddio mathau penodol o gyfarpar, i bennu amodau o ran y broses cynhyrchu cig, i atal busnes yn llwyr, neu i atal arfer benodol sy'n mynd yn groes i ddarpariaethau hylendid y ddeddfwriaeth. Er mwyn iddynt fod yn gyfreithiol ddilys, rhaid i'r hysbysiadau statudol nodi union natur yr achos o ddiffyg cydymffurfiaeth, cyfeirio'n gywir at y ddeddfwriaeth berthnasol, a bod yn ddarllenadwy ac yn ddiamwys.

### Cymru a Lloegr: y camau gorfodi ffurfiol ac anffurfiol a gymerwyd yn ystod 2017/18

Camau ffurfiol	Nifer yr hysbysiadau 1 Ebrill 2016 tan 31 Mawrth 2017	Nifer yr hysbysiadau 1 Ebrill 2017 tan 31 Mawrth 2018
<b>Hysbysiad Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid</b> a roddir o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Rheoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd (Lloegr) 2013 i roi diwrnod o rybudd i weithredwr busnes bwyd o'r bwriad i wneud cais i lys am <b>Orchymyn Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid</b> a fyddai'n arwain at atal y busnes ar unwaith	Dim	Dim
<b>Hysbysiad Gwella Hylendid</b> a roddir o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Rheoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd (Lloegr) 2013	198	152
<b>Hysbysiad Camau Unioni</b> a roddir o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Rheoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd (Lloegr) 2013	166	245

Camau anffurfiol	Nifer y rhybuddion 1 Ebrill 2016 tan 31 Mawrth 2017	Nifer y rhybuddion 1 Ebrill 2017 tan 31 Mawrth 2018
Rhybudd ysgrifenedig	2,567	2,433

## ERLYNIADAU

Ar ôl atgyfeiriad ymchwil ac ymchwiliad troseddol llawn, gall yr awdurdod gorfodi perthnasol erlyn unigolion sydd wedi cyflawni troseddau ar safleoedd cymeradwy. Yng Nghymru a Lloegr, yr ASB sy'n erlyn unigolion am dorri'r rheolau hylendid bwyd. Gwasanaeth Erlyn y Goron (sy'n gweithredu ar rân Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig) neu Lywodraeth Cymru sy'n erlyn unigolion yr honnir eu bod wedi torri rheolau lles anifeiliaid, sgil-gynhyrchion anifeiliaid a rhai o'r gofynion ar gyfer enseffalopathi sbyngffurf trosglwyddadwy (TSE). Yn 2017/18, cyfeiriodd y Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau 100 o achosion i Gangen Ymchwiliadau Troseddol yr ASB er mwyn iddi ymchwilio iddynt gyda golwg ar ddwyn erlyniad.

Oherwydd amserlen erlyniadau, anaml y bydd achos yn mynd o'r cam atgyfeirio i wrandawriad terfynol yn y llys yn ystod yr un flwyddyn adrodd. O'r herwydd, nid yw llawer o'r achosion a gafodd eu hatgyfeirio er mwyn ymchwilio iddynt yn 2017/18 wedi dod i ben hyd yma.

Yn ystod 2017/18, daeth 11 achos y bu i'r ASB ymchwilio iddynt i ben yn y llys, gydag 11 diffynnydd yn cael eu collfarnu. Mae saith achos arall yn cael eu herlyn ar hyn o bryd.

Cofnodwyd bod 97 achos wedi'u hatgyfeirio er mwyn ymchwilio iddynt yng Nghymru a Lloegr yn ystod 2016/17. Mae'r tabl isod yn dangos canlyniad neu statws yr atgyfeiriadau hynny:

Canlyniadau/statws	Nifer yr atgyfeiriadau
Collfarnau	10
Anfon llythyrau rhybuddio	17
Erlyniadau'n mynd rhagddynt yn y llysoedd	10
Rhyddfarnau	1
Erlyniadau wedi'u tynnu'n ôl	2
Dim erlyniadau	57

## CWYNION GAN GYNNWYS Y RHEINY A WNAED I'R OMBWDSMON SENEDDOL A'R GWASANAETH IECHYD

Bydd yr ASB bob amser yn ceisio dysgu o gwynion a mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n cael eu pennu drwy'r broses gwynion. Rydym yn ceisio datrys pob cwyn yn gyflym ac mor agos â phosibl i'r man lle darperir y gwasanaeth, felly rydym yn trin a thrafod pob cwyn i gychwyn ar lefel y gwasanaeth lleol. Fodd bynnag, os nad yw achwynydd yn fodlon â'r ymateb lleol, gall gyfeirio ei gwyn, gan ddefnyddio ein proses gwynion sy'n cynnwys dau gam. Ceir gwybodaeth amdani ar-lein:

<https://www.food.gov.uk/cy/contact/consumers/feedback/cwynion-a-sylwadau>

Os yw achwynydd yn dal i fod yn anfodlon ar ôl mynd drwy ddau gam proses gwynion yr ASB, gall gyfeirio'r mater at yr Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd. Rhaid cyflwyno cwynion i'r Ombwdsmon drwy law Aelod Seneddol.

Yn ystod 2017, aeth tair cwyn tu hwnt i lefel yr ymateb lleol. Gwrthodwyd y cwynion mewn dau achos, a chafodd un achos ei gyfeirio tu allan i'r broses gwynion oherwydd ei bod yn fwy priodol i Dîm Cyfreithiol yr ASB ymdrin â'r materion dan sylw. Ni fu i'r Ombwdsmon ymchwilio i unrhyw achos.


## ADRODDIADAU CYNALIADWYEDD

Yn ystod 2017/18, symudodd yr ASB o Aviation House i ddau lawr yn Clive House, gan leihau ein gofod swyddfa ymhellach. Oherwydd yr ymarfer rhesymoli, mae'r gwastraff ailgylchadwy a gynhychir gennym wedi cynyddu, ond roedd disgwyl i hyn ddigwydd, a dylai ddychwelyd i'r lefelau targed yn y dyfodol. Mae'r rhaglen Ein Ffordd o Weithio wedi arwain at gynnydd yn y teithio corfforaethol sy'n cael ei drefnu drwy Redfern. Rydym yn cadw llygad ar hyn ac yn ceisio mynd i'r afael â'r mater. Er enghraifft, rydym wedi buddsoddi mewn cyfleusterau fideogynadledda newydd yn ein swyddfeydd fel nad oes raid teithio i gyfarfodydd.


Mae'r tabl isod yn dangos ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr a'r gwariant cysylltiedig yng Nghymru

### Allryiadau nwyon tŷ gwydr

#### Dangosyddion anariannol – Cwmpas 2

	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
 Cyfanswm yr ynni a ddefnyddiwyd (kwh)	<u>27,792</u>	<u>25,902</u>	<u>20,993</u>	<u>20,993</u>	

#### Dangosyddion ariannol (£)






	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
 Cyfanswm y gwariant ar ynni	<u>6,014</u>	<u>5,009</u>	<u>2,487</u>	<u>2,487</u>	

i Trydan yn unig. Dim cyflenwad nwy.


Mae'r tabl isod yn dangos y data gwastraff a'r gwariant cysylltiedig

### Gwastraff

#### Dangosyddion anariannol – (tunelli)

	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
 Gwastraff a ailgylchir/ ailddefnyddir	0.7	0.5	Amh.	Amh.	
 Tirlenwi	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	
 Gwastraff a losgir	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	
 Gwastraff cyfrinachol	0.4	Amh.	Amh.	Amh.	
 Cyfanswm y gwastraff	<u>1.1</u>	<u>0.5</u>	<u>Amh.</u>	<u>Amh.</u>	


## Dangosyddion ariannol (£)

	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
 Cyfanswm y gwariant ar wastraff	<u>697</u>	<u>460</u>	<u>N/A</u>	<u>N/A</u>	

Mae'r tabl isod yn dangos y data dŵr a'r gwariant cysylltiedig


## Dŵr

Dangosyddion anariannol (m<sup>3</sup>)

	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
 Cyfanswm y dŵr a ddefnyddiwyd	<u>N/A</u>	<u>N/A</u>	<u>N/A</u>	<u>N/A</u>	

ii Nid oes modd ei fesur – tenant mewn adeilad mawr a rennir.

## Dangosyddion ariannol (£)

	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
 Gwariant ar ddŵr	<u>N/A</u>	<u>N/A</u>	<u>N/A</u>	<u>N/A</u>	



Jason Feeney

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

19 Mehefin 2018


Mae cyfrifon yr Asiantaeth a manylion perthnasol eraill wedi'u cynnwys yma er gwybodaeth. Fe'u cyflwynir yn Saesneg yn unig oherwydd eu natur dechnegol.

# DIRECTORS' REPORT

The FSA<sup>5</sup> is a non-Ministerial Government Department. Staff are accountable through a Chief Executive to the Board, rather than directly to ministers. The Board consists of a Chair, Deputy Chair and up to 12 members. The Chair and deputy Chair are appointed by the Secretary of State for Health in agreement with health ministers in Wales and Northern Ireland. The Board is mainly appointed by the Secretary of State for Health, with one member appointed by the Welsh Health Minister and one by the Northern Ireland Health Minister.

The Board is responsible for the overall strategic direction of the FSA, ensuring that it fulfils its legal obligations so that its decisions or actions take proper account of scientific advice, the interests of consumers and other relevant factors. Day-to-day management of the FSA is delegated to officials through the Chief Executive. In addition to the FSA Board, the FSA has advisory committees, chaired by Board members, in Wales and Northern Ireland. The role of the committee in each country is to advise the Board. The Board is required by statute to take account of their advice in its work.

## Current architecture of FSA governance



5 More information about our organisation and structure can be found on our website: [www.food.gov.uk/about-us/about-the-fsa](http://www.food.gov.uk/about-us/about-the-fsa)

## DETAILS OF BOARD MEMBERS AND DIRECTORS

### The FSA Board<sup>6</sup>

During the year, the membership of the non-executive FSA Board was:	
Heather Hancock	FSA Chair (from 1 April 2016)
Laura Sandys	Deputy Chair (from 1 September 2017)
Dr Ruth Hussey	Chair of the Welsh Food Advisory Committee
Colm McKenna	Chair of the Northern Ireland Advisory Committee
Paul Williams	Board member
Rosie Glazebrook	Board member
Stewart Houston	Board member
David Brooks	Board member
Mary Quicke MBE	Board member (from 1 September 2017)
Stuart Reid	Board member (from 1 September 2017)
Ram Gidoomal	Board member
Heather Peck	Board member (until 30 April 2017)
Jim Smart	Board member (until 30 April 2017)

<sup>6</sup> More information about our Board members can be found on our website:  
[www.food.gov.uk/about-us/our-board](http://www.food.gov.uk/about-us/our-board)



## Executive Management Team<sup>7</sup>

During the year, the membership of the Executive Management Team was:	
Jason Feeney CBE	Chief Executive
Professor Guy Poppy	Chief Scientific Advisor
Colin Sullivan	Chief Operating Officer (from 23 September 2017)
Rod Ainsworth	Director of Regulatory and Legal Strategy
Chris Hitchen	Director of Finance and Performance
Julie Pierce	Director of Openness, Data and Digital
Steve Wearne	Director of Policy
Maria Jennings	Director, FSA Northern Ireland and Organisational Development
Nina Purcell	Director, FSA Wales and Local Delivery
Michael Wight	Interim Director of Policy (from 21 December 2017)
Richard McClean	Strategy Director (from 21 August 2017 until 28 January 2018)
Martin Evans	Acting Chief Operating Officer (from 31 March 2017 until 23 April 2017 and from 19 June 2017 until 5 November 2017)
Simon Dawson	Acting Chief Operating Officer (from 24 April 2017 until 18 June 2017)

All senior officials have been appointed under the rules laid down by the Civil Service Commissioners. Salary and pension details of the Board and the EMT are disclosed in the Remuneration Report.

<sup>7</sup> More information about members of the EMT can be found on our website: [www.food.gov.uk/about-us/leadership-team](http://www.food.gov.uk/about-us/leadership-team)

## FSA advisory committees<sup>8</sup>

During the year, the membership of the food advisory committees was:

Northern Ireland	
Colm McKenna	Chair
Fiona Hanna	
Dr Christine Kennedy	
Lorraine Crawford	
Aodhan O'Donnell	
Dr Liz Mitchell	
Sara McCracken	
Phelim O'Neill	

Wales	
Dr Ruth Hussey	Chair
Alan Gardner	
Dr Hugh Jones	
James Wilson	
Dr Norma Barry	
David Peace	
Ronnie Alexander	

## Audit and Risk Assurance Committee

Membership of the FSA Audit and Risk Assurance Committee:

Non-executive members	
Colm McKenna	Chair
Ram Gidoomal	
Dr Ruth Hussey	
Mary Quicke MBE	
Laura Sandys	

<sup>8</sup> More information about the committees of the FSA Board can be found on our website: [www.food.gov.uk/about-us/committees-of-the-fsa-board](http://www.food.gov.uk/about-us/committees-of-the-fsa-board)

# MANAGEMENT COMMENTARY

## Directors' report – business review

The following management commentary discloses the matters required to be disclosed in the business review under section 417 of the Companies Act 1968.

## Preparation of accounts

The Consolidated Resource Accounts have been prepared in accordance with the direction given by HM Treasury. They are presented to the House of Commons pursuant to Section 6(4) of the Government Resources and Accounts Act 2000. The costs of FSA offices in Wales and Northern Ireland are funded through the relevant devolved authority.

## Supplier payment policy

It is FSA policy to pay all invoices not in dispute within five days of receipt. During 2017/18, 91% of all invoices were paid within this target. This figure has increased from 2016/17's 83%, which was due to a closed period surrounding a financial system changeover. The policy is to remain the same for 2018/19.

## Financial instruments

The FSA has no borrowings. It relies primarily on departmental grants for its cash requirements, and is therefore not exposed to liquidity risks. It also has no material deposits. All material assets and liabilities are in sterling, so the FSA is not exposed to significant interest rate risk or currency risk.

## Consultancy

Consultancy spend in 2017/18 was £3,192 (2016/17 £1,500).

## Details of paid sponsorship agreements over £5,000

We have not secured any paid-for sponsorship deals, preferring to work with partners who can offer help for free through their own channels and networks.

## Going concern

The FSA has significant net liabilities relating to the pension liabilities of staff in England and Wales who are members of the Local Government Pension Scheme (LGPS). The accounts, however, are prepared on a going concern basis since, as a government department, all liabilities will be met by future funding from Parliament.

## Pensions

FSA employees are civil servants. Most are members of the Principal Civil Service Pension Scheme (PCSPS). This is a central government unfunded pension scheme. Pension payments are made through the PCSPS resource account. Board members are not civil servants therefore they are not members of the PCSPS. However, some have similar pension arrangements independent of the PCSPS. Some employees are members of the LGPS. This is a defined benefit scheme governed by the Local Government Pension Scheme Regulations 1995. It is administered by the London Pension Fund Authority (LPFA), whose financial statements are prepared for the whole LGPS.

## Disclosure of Board members' interests

Board members are appointed to act collectively in the public interest, not to represent specific sectors. Provisions for declaration of interests and withdrawal from meetings are intended to prevent the Chair, Deputy Chair, and members being influenced or appearing to be influenced, by their private interests in the exercise of their collective public duties.

All personal or business interests which may, or in the judgement of the member may, be perceived by a reasonable member of the public to influence their judgement, should be declared. Such interests include, but are not limited to, involvement in the agriculture, food, and related industries. The Code of Conduct for Board members includes a guide to the categories of interest that must be declared.

Details of Board members, their register of interests, and the Code of Conduct are on our website: [www.food.gov.uk/about-us/our-board](http://www.food.gov.uk/about-us/our-board)

## Auditors

The accounts have been audited by the Comptroller and Auditor General in accordance with Schedule 4 of the Food Standards Act 1999. The audit fee for all the FSA's accounts for the year was £85,000 (2016/17 £85,000). I have taken all necessary steps to make myself aware of relevant audit information and to ensure that information is made available to the auditors.

No payments were made to the auditors for non-audit work in 2017/18 (2016/17 £nil).

## Public sector information

The FSA has complied with the cost allocation and charging requirements set out in HM Treasury and Office of Public Sector Information guidance.

